

CYNGOR SIR YNYS MÔN

Pwyllgor: Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol

Dyddiad y cyfarfod: 31 Ionawr, 2012

Cyfarwyddwr Corfforaethol Perthnasol: Y Prif Weithredwr

Comisiynwr Perthnasol: Mr Gareth Jones

Teitl yr Adroddiad

Diwygio Cynllun Iaith y Cyngor Sir.

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

Darparu cyfle i aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini gyflwyno sylwadau ar y Cynllun Iaith diwygiedig i Fwrdd y Comisiynwyr ar 20 Chwefror, 2012.

2.0 Materion ar gyfer Sgriwtini

Ceir crynodeb o'r diwygiadau drafft yn Atodiad C.

3.0 Cefndir

Mae'n ofyniad stadudol i'r Cyngor Sir adolygu ei Gynllun Iaith mewn ymgynghoriad gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Cyfle yw hyn i ddiweddarau'r Cynllun presennol yn hytrach na newid yr egwyddorion sylfaenol a fabwysiadwyd gan y Cyngor Sir yn ei Gynllun Iaith gwreiddiol yn ôl yn 1996. Hwn fydd y pedwerydd argraffiad o'r Cynllun ac mae'r fersiwn drafft hwn yn bodloni gofynion a disgwyliadau Bwrdd yr Iaith.

Cynhaliwyd ymgynghoriad mewnol ar y Cynllun Iaith diwygiedig rhwng 21 Rhagfyr, 2011 a 18 Ionawr, 2012 ac yn ystod y cyfnod hwn darparwyd cyflwyniad ar y Cynllun i'r Grwp Tasg Iaith ar 10 Ionawr, 2012 a'r Tim Rheoli ar 23 Ionawr, 2012.

Bwriedir dilyn yr amserlen a ganlyn gogyfer mabwysiadu'r Cynllun Iaith diwygiedig:

- Cyflwyno'r Cynllun Iaith i Fwrdd y Comisynwyr ar 20 Chwefror, 2012.
- Cyflwyno'r Cynllun, i'w fabwysiadu gan y Cyngor Sir ar 6 Mawrth, 2012.
- Y Cynllun Iaith yn cael ei dderbyn gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg cyn diwedd y flwyddyn ariannol 2011/12.
- Argraffu'r Cynllun ac ail godi ymwybyddiaeth am yr egwyddorion o fis Ebrill, 2012 ymlaen.

Enw, Carol Wyn Owen
Teitl y Swydd, Rheolwr Polisi a Strategaeth,
Adran Uned Bolisi.

Dyddiad 16 Ionawr, 2012.

Atodiadau

Y Cynllun Iaith diwygiedig drafft (Atodiad A)
Y Cynllun Gweithredu drafft am y cyfnod 2011-2014 (Atodiad B)
Crynodeb o'r Diwygiadau Drafft (Atodiad C)

Penderfyniadau perthnasol a wnaed yn flaenorol gan y Cyngor, y Pwyllgor Gwaith neu'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol

*Rhestrwch yma unrhyw benderfyniadau blaenorol perthnasol.

*Os nad oes dim, nodwch "Dim penderfyniadau perthnasol blaenorol".

Papurau Cefndir

Swyddog Cyswllt: Carol Wyn Owen est 2561.

Derbyniodd y Cynllun diwygiedig hwn
gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg
o dan Adran 14(1) y Ddeddf
ar **DYDDIAD**

Pedwerydd Argraffiad – ...dyddiad....

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r Cynllun hwn yn nodi sut y bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau l'r cyhoedd yng Nghymru.

DRAFT

Cynnwys

1.0 Rhagarweiniad

- 1.1 Cyffredinol
- 1.2 Dwyieithrwydd
- 1.3 [Strategaeth Iaith Llywodraeth Cymru](#)
- 1.4 [Mesur Iaith Gymraeg \(Cymru\) 2011](#)
- 1.5 Y Cynllun
- 1.6 Cyfrifoldeb am Weithredu'r Cynllun
- 1.7 Trefniadau Gweinyddol i Hwyluso'r Cynllun

2.0 Cynllunio Gwasanaethau Dwyieithog

- 2.1 Polisiau a Mentrau Newydd
- 2.2 Gweinyddiaeth Fewnol

3.0 Cyflwyno Gwasanaeth Dwyieithog

- 3.1 Cyflenwi Gwasanaeth
- 3.2 Gwasanaethau ar Ran y Cyngor Gan Bartion Eraill
- 3.3 Grant a Nawdd
- 3.4 Cyflawni Swyddogaethau Statudol – Rheoleiddio
- 3.5 Partneriaeth (Ffurfiol ac Anffurfiol)

4.0 Delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

- 4.1 Delio Wyneb Yn Wyneb â'r Cyhoedd
- 4.2 Gohebu Ysgrifenedig
- 4.3 Ffonio
- 4.4 Cyfarfodydd Cyhoeddus
- 4.5 Cyfarfodydd Eraill
- 4.6 Ymdrin â'r Cyhoedd Mewn Ffyrdd Eraill

5.0 Wyneb cyhoeddus y Cyngor

- 5.1 Hunaniaeth Gorfforaethol Arwyddion
- 5.2 Cyhoeddi ac Argraffu Deunydd Cyhoeddus
- 5.3 Taflenni, Llyfrynau, Ffurflenni a 5.4 Deunydd Esboniadol
- 5.4 Datganiadau i'r Wasg a'r Cyfryngau
- 5.5 Hysbysebu a Chyhoedduswydd
- 5.6 Hysbysiadau Cyhoeddus a 5.7 Hysbysiadau Swyddogol
- 5.8 Hybysebion Swyddi
- 5.9 Ffilmiau, Fideo, Tapiau a Deunydd Clyweledol
- 5.10 Arddangosfeydd, Cynadleddau a Seminarau
- 5.11 Postio Uniongyrchol
- 5.12 Dulliau Ymateb
- 5.13 Gwaith Marchnata
- 5.14 Diwylliant a Threftadaeth

6.0 Gweithredu ac arolygu'r Cynllun

- 6.1 Staffio
- 6.2 Hyfforddiant Cymraeg
- 6.3 Recriwtio
- 6.4 Hyfforddiant
- 6.5 Trefniadau Gweinyddol
- 6.6 Y Gwasanaeth Cyfieithu

7.0 Arolygu'r Cynllun

- 7.1 Cyffredinol
- 7.2 Methodoleg Monitro
- 7.3 Amcanion Blynnyddol
- 7.4 Adroddiadau Adrannol
- 7.5 Cynnal y Cynllun
- 7.6 Agweddau Personel a Hyfforddiant
- 7.7 Cyfieithu
- 7.8 Rheoli Perfformiad
- 7.9 Trefn Gwyno'r Cyngor
- 7.10 Cyhoedduswydd
- 7.11 Ymchwil Adran 17
- 7.12 Gwella'r Gwasanaeth

Deleted: Arolwg Annibynnol

Deleted: <#>Iaith Pawb
Cydraddoldeb

Formatted: Bullets and Numbering

Deleted: <#>Y Safon Gydraddoldeb Ar Gyfer Llywodraeth Leol Cymru

1.0 Rhagarweiniad

1.1 Cyffredinol

- 1.1.1 Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gyfrifol am ddarparu'r holl wasanaethau i lywodraeth leol i bobl Ynys Môn.

Mae canolfan weinyddol y Sir yn Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni.

Mae'r Cyngor yn gwasanaethu poblogaeth o 68,368 (amcangyfrif canol 2003), 67,864 (Cyfrifiad 2001, wedi ei gywiro) sydd wedi eu dosbarthu ledled yr ynys ac etholaeth (pobl 18 oed a hŷn) o 51,417 (ffigwr 2004) dros Ynys Môn gyfan, sydd yn ardal o 72,000 hectar (177,000 erw).

O'r boblogaeth yma, mae 60.1% yn siarad Cymraeg a gellir eu dosbarthu yn ôl oedran fel a ganlyn:

Oedran	Canran Siaradwyr Cymraeg
3-15	74.7%
16-44	63.9%
45-64	53.3%
65 a throsodd	54.5%

(Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001)

Yn ogystal, mae cyfansoddiad y boblogaeth wedi newid yn sylweddol yn ystod y 30 mlynedd diwethaf, ac o ganlyniad gwelir bod 32% o'r boblogaeth yma wedi eu geni y tu allan i Gymru.

Mae'r Cyngor yn cyflogi rhagor na 3,000 o weithwyr.

- 1.1.2 Mae'r Cyngor yn darparu'i wasanaethau trwy'r 5 Adran Gwasanaeth a ganlyn:

Swyddfa'r Prif Weithredwr

Adran Gyllid

Adran Addysg a Hamdden

Adran yr Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol

Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol

1.2 Dwyieithrwydd

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn cydnabod statws cyfartal i'r iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg. Y Gymraeg a'r Saesneg fydd ieithoedd swyddogol y Cyngor a bydd iddynt yr un statws a dilysrwydd yng ngweinyddiaeth a gwaith y Cyngor.

Mae diogelu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg a datblygu'r defnydd ohoni oddi fewn ac oddi allan i'r Cyngor yn un o amcanion sylfaenol y Cyngor. Cydnabyddir yr angen i gorff cyhoeddus sicrhau fod ei wasanaeth dwyieithog yn cyfateb i'r angen yn lleol.

1.3 Strategaeth iaith Llywodraeth Cymru

Mae'r Cyngor yn cefnogi amcanion Strategaeth iaith Llywodraeth Cymru ac yn ystyried ei Gynllun iaith Gymraeg fel cyfraniad lleol pwysig tuag at wireddu'r strategaeth genedlaethol ehangach honno.

1.4 Mesur iaith Gymraeg (Cymru) 2011

Nod y Mesur iaith newydd yw cynnig mwy o eglurder a chysondeb i siaradwyr Cymraeg o ran y gwasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn yn y Gymraeg. Mae'r Gymraeg bellach yn iaith swyddogol yng Nghymru yn sgil y Mesur yma a ddaeth I rym ym mis Chwefror 2011. Mae'r Cyngor yn ymrwymo i weithredu'n gadarnhaol i ymgymryd â swyddogaethau o dan y Mesur iaith newydd.

Un o swyddogaethau'r Mesur iaith yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg a hybu cydraddoldeb â'r Saesneg. Mae'r Cyngor hefyd wedi ymrwymo i gydraddoldeb a'r bob lefel, a hynny fel darparwr gwasanaeth ac fel cyflogwr, trwy sicrhau ei fod yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Bydd y Cyngor yn priflifo arfer dda yn y maes dwyieithrwydd yn ogystal â'r nodweddion a ddiogelir gan y Deddf honno.

1.5 Y Cynllun

Cymeradwywyd Cynllun iaith Gymraeg Cyntaf y Cyngor Sir gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar 12 Gorffennaf, 1996. Dyma'r pedwerydd diwygiad o'r Cynllun iaith Gymraeg. Gweithredir y Cynllun gydag awdurdod Aelodau Etholedig y Cyngor Sir.

Bydd y Prif Weithredwr y Cyfarwyddwr Corfforaethol a phob Pennaeth Gwasanaeth yn gyfrifol am sicrhau bod pob swyddog a phob Adran o fewn y Cyngor yn cydymffurfio â'r Cynllun hwn. Bydd pob Cyfarwyddwr Corfforaethol yn arwyddo Datganiad o Ymrwymiad i egwyddorion y Cynllun.

Bydd y Prif Weithredwr yn gyfrifol am gadw gorolwg dros y Cynllun a'i weinyddu, am adolygu'r Cynllun ac am adrodd yn flynyddol ar gyraeddiadau i'r pwyllgor gweithredol, a neu'r Pwllgor Sgriwtini Corfforaethol.

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu casgliad o ddangosyddion perfformiad a osodir gan Fwrdd yr Iaith ac wedi ymrwymo i adrodd arnynt yn ei adroddiadau monitro blynyddol.

Deleted: 1.3 **Arolwg Annibynnol**

¶
Yn ôl yn 2001, fe gomisiynodd y Pwllgor Gwaith ar y pryd Arolwg Annibynnol ar Weithrediad ei Gynllun iaith. Pwrpas hwn oedd i geisio cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg trwy'r Cyngor. Cynhaliwyd yr Arolwg gan Gwmni Iaith Cyf a darparwyd adroddiad cynhwysfawr ganddynt yn nodi'r prif gasgliadau ynghyd ag argymhellion gweithredu. Mae'r Arolwg wedi delio gydag ystod eang o faterion ar draws y Cyngor ac o'r herwydd mae nifer yr argymhellion yn helaeth. Mae'r Cyngor wedi llunio rhaglen weithredu i gwrrd â'r argymhellion ond o ran ymarferoldeb a'r adnoddau bu'n ofynnol blaenoriaethu'r tasgau i'w cyflawni. I hyrwyddo'r broses o gyflawni'r amcanion hyn, mae Grwp Tasg Iaith wedi'i sefydlu sydd â chyfrifoldeb corfforaethol am gydlynu materion iaith drwy'r Cyngor. ¶

Deleted: 4

Deleted: iaith Pawb

Deleted: Yn Chwefror, 2003, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru iaith Pa... [1]

Formatted: Font: Not Bold

Deleted: y strategaeth hon a

Deleted: 5

Formatted: Font: Bold

Deleted: **Cydraddoldeb**

Formatted: Font: Bold

Formatted: Indent: Left: 36.85 pt

Formatted: Bullets and Numbering

Deleted: Mae'r Cyngor yn parchu'r egwyddor o ... [2]

Formatted: Indent: Left: 36 pt

Deleted: ¶ ... [3]

Deleted: 7

Deleted: ar

Deleted: gan Fwrdd yr Iaith ac fe gyhoeddwyd yr ail... [4]

Deleted: Mae'r Cyngor yn cael ei arwain gan Arweinydd... [5]

Deleted: ¶

Deleted: a phob

Deleted: Pwllgor Gwaith

Dylai unrhyw un sy'n dymuno cysylltu â'r Cyngor mewn perthynas â'r Cynllun hwn gysylltu â'r Swyddog Iaith :

Carol Wyn Owen
Swyddfa'r Prif Weithredwr
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfa'r Sir
Llangefni
Ynys Môn.
LL77 7TW

Rhif Ffôn : 01248 752561
Rhif Ffacs : 01248 750839
Ebost : cwoce@ynysmon.gov.uk

1.6 Cyfrifoldeb Am Weithredu'r Cynllun

1.6.1 Bydd y Cyngor yn dynodi Uwch Swyddog o fewn y sefydliad i gydlynu'r iaith yn strategol ac yn gorfforaethol. Y Prif Weithredwr dros dro sy'n cyflawni'r swyddogaeth ar hyn o bryd. Bydd, gyda chefnogaeth yr Uned Bolisi, yn hyrwyddo gweithrediad y Cynllun Iaith ac yn chwilio am gyfleoedd i gynghori ac annog adrannau i brif ffrydio'r Gymraeg i bolisiau a mentrau newydd.

1.6.2 Bydd y Penaethiaid Gwasanaeth yn gyfrifol am sicrhau fod eu gwasanaethau yn gweithredu yn unol â gofynion y Cynllun hwn.

1.7 Trefniadau Gweinyddol i Hwyluso'r Cynllun

Mae'r Cyngor Sir wedi sefydlu Grwp Tasg Iaith i hybu'r Gymraeg ym mhob agwedd o waith y Cyngor. Bydd hyn yn fodd i gynorthwyo'r Cyngor i weithredu'n fwy strategol mewn perthynas â'r iaith ar ddwy lefel sef:-

1.7.1 Corfforaethol

Rôl y Grwp Tasg Iaith fydd ceisio hyrwyddo'r Gymraeg yn gorfforaethol mewn modd traws-bynciol a thraws adrannol. Yn ogystal, bydd yn sicrhau fod yr ymrwymiad i'r Gymraeg yn un o amcanion y Cyngor trwy gyflawni'r tasgau a ganlyn:-

- Adolygu Cynllun Iaith y Cyngor.
- Adolygu a sefydlu cyfundrefnau Monitro
- Trosoglwyddo unrhyw risgiau o ran perfformiad i sylw'r Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol l'w craffu'n ymhellach

1.7.2 Cymunedol

Mae angen i'r Cyngor geisio cryfhau ei ddylanwad ar faterion ieithyddol a hyrwyddo'r Gymraeg ym mywyd yr Ynys. Mae hyn yn cyd-fynd â'r ymrwymiad yn amcanion y Cyngor i hyrwyddo a qwarchod yr iaith Gymraeg, y diwylliant a'r

Deleted: ¶

Deleted: 8

Deleted: 8

Deleted: Gwnaeth yr Arolwg Annibynnol a gomisiynwyd gan Iaith Pawb argymhelliad sef y

Deleted: dylai'r

Deleted: Sir

Deleted: d

Deleted: n dilyn yr argymhelliad, mae'r swyddogaeth hon yn cael ei chyflawni gan y

Deleted: 8

Deleted: Cyfarwyddwyr Corfforaethol

Deleted: hadrannau

Deleted: 1.8.3 Bydd pob aelod o staff y Cyngor yn gyfrifol am weithredu yn unol â gofynion y Cynllun hwn.¶

Deleted: 9

Deleted: Pwyllgor Gwaith y

Deleted: yn Hydref, 2004, dan Gadeiryddiaeth y Deilydd Portfolio Iaith

Deleted:

Deleted: 9

Deleted: A

Deleted: diwygiedig

Deleted: gogyfer Gwella yn cael eu cadw

Deleted: <#>Gweithredu Argymhellion tymor byr yr Arolwg Annibynnol gan Gwmni Iaith Cyf trwy Raglen Weithredu.¶

Formatted: Bullets and Numbering

Deleted: 9

Deleted: A

Deleted: diwygiedig

Deleted: H

dreftadaeth Gymreig. Bydd gan y Grwp Tasg rôl i gryfhau'r ddeialog gyda thrigolion yr Ynys drwy bartneriaethau'r Cyngor.

Deleted: iaith Gymraeg

Deleted: ¶

¶
¶
¶
¶

2.0 Cynllunio Gwasanaeth Dwyieithog

2.1 Polisiau a Mentrau Newydd

Sicrheir bod unrhyw gynlluniau, mentrau neu bolisiâu a fabwysiedir gan y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion y Cynllun hwn.

2.1.2 Bydd cyfeiriad at y Cynllun hwn mewn unrhyw gynlluniau, mentrau neu bolisiâu o eiddo'r Cyngor lle bo hynny'n berthnasol.

2.1.3 Gwneir asesiad o effaith ieithyddol tebygol neu wirioneddol unrhyw bolisi neu arfer gwaith y bydd y Cyngor yn ei ddatblygu o'r newydd neu ei adolygu. Mae'r templed asesu effaith o ran cydraddoldeb a ddatblygwyd gan y Cyngor yn cynnwys yr iaith Gymraeg fel un o'r elfennau sydd angen sylw wrth gynnal asesiad o'r fath. Hefyd, mae'r canllawiau drafft sy'n mynd gyda'r templed yn cynnwys cyngor ar y math o faterion y dylid eu hystyried o ran yr iaith.

Formatted: Indent: Left: 0 pt, Hanging: 36 pt

Ni fydd y Cyngor yn gweithredu unrhyw fesurau a allai danseilio'r Cynllun iaith hwn a'i amcanion.

2.1.4 Bydd y Cyngor yn ymgynghori gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg mewn perthynas â bwriad i newid neu ddiwygio'r Cynllun neu yn achos penderfyniad gan y Cyngor a fydd yn effeithio ar ei Gynllun neu ar Gynllun sefydliadau eraill, er mwyn derbyn ei farn yn gyffredinol ar y cynnig ac er mwyn cael barn ar gyfreithlondeb unrhyw gynnig.

Ni fydd y Cyngor yn newid nac yn diwygio'r Cynllun heb drafod y mater gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn gyntaf.

2.2 Gweinyddiaeth Fewnol

2.2.1 Nod y Cyngor yw sicrhau mai Cymraeg fydd prif iaith gweinyddiaeth fewnol y Cyngor, ar lafar ac yn ysgrifenedig. Er mwyn cyflawni hyn bydd y Cyngor yn monitro cynnydd yn flynyddol.

Yn wyneb polisi uchod y Cyngor bydd y Cyfarwyddwyr Corfforaethol a Phenaethiaid Gwasanaeth yn gyfrifol am annog eu swyddogion i ddefnyddio'r Gymraeg wrth weithio a chyfathrebu'n fewnol, ar lafar ac yn ysgrifenedig.

O gydnabod yr angen statudol i sicrhau cydraddoldeb cyhoeddus i'r Gymraeg a'r Saesneg ac yn wyneb dymuniad y Cyngor Sir i hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg, bydd targedau'n cael eu gosod ac amserlen yn cael ei phennu ar gyfer gwella sgiliau (llafar ac ysgrifenedig) dwyieithrwydd (staff).

Deleted: 2.1.3 Bydd y Prif Weithredwr a phob Cyfarwyddwr Corfforaethol yn gwbl ymwybodol o ofynion y Cynllun a dylent sicrhau bod y gofynion hyn yn cael eu hadlewyrchu yn y gwaith a wneir gan eu hadrannau ac mewn gwaith a wneir ar ran eu hadrannau gan unigolion/gyrff/gontractwyr eraill.¶
¶
Bydd y Prif Weithredwr yn gyfrifol am fonitro'r Cynllun a sicrhau ei fod yn cael ei weithredu.¶
¶
Bydd y Prif Weithredwr a phob Cyfarwyddwr Corfforaethol hefyd yn gyfrifol am hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn ei (h)adran e.e. trwy'r Cynllun Anwytho Staff a chyrsiau hyfforddiant iaith.¶
¶

Deleted: 4

Deleted:

2.2.2 Anogir staff i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyfathrebu â'i gilydd ar lafar ac yn ysgrifenedig. Darperir y pecyn meddalwedd cyfrifiadurol 'Cysill/Cysgair' i staff er mwyn annog a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

Serch hynny, bydd gan aelodau staff y Cyngor yr hawl i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg cyn belled ag y bo hynny'n gyson â darpariaethau'r Cynllun hwn ac nad yw'n amharu'n sylweddol ar effeithiolrwydd cyfathrebu mewnol.

2.2.3 Darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg mewn cyfarfodydd o weithgorau swyddogion a chysiau hyfforddi staff fel bo'r angen.

2.2.4 Bydd pob cylchlythyr neu femorandwm mewnol cyffredinol yn ddwyieithog, p'un a ydyw ar bapur neu ar ffurf e-bost. Bydd staff yn cael eu hannog i anfon memoranda at ddarllenwyr Cymraeg yn y Gymraeg.

2.2.5 Gydag unrhyw ohebu dwyieithog, bydd yr ohebiaeth naill ai gyda'r Gymraeg yn ymddangos uwchben y Saesneg neu ar ffurf gyfochrog, gyda'r Gymraeg ar y chwith a'r Saesneg ar y dde. Bydd y ddwy iaith yn gyfartal o ran ffurf, maint, eglurder, amlygrwydd ac ansawdd.

2.2.6 Mae'r fewnwyd gyfrifiadurol 'MonITor' wedi cael ei sefydlu i ledaenu gwybodaeth gorfforaethol i staff y Cyngor. Bydd y wybodaeth a ddarperir trwy'r cyfrwng hwn yn ddwyieithog. Hefyd, mae'r papur newydd mewnol i'r staff, "Medra" yn cael ei gyhoeddi'n ddwyieithog.

3.0 Cyflwyno Gwasanaeth Dwyieithog

3.1 Cyflenwi Gwasanaeth

Bydd y Cyngor yn darparu gwasanaeth cyflawn i'r cyhoedd yn Gymraeg ac yn Saesneg ar draws ei holl wasanaethau. Ni fydd dewis yr iaith yr ymdrinnir â hi wrth ymhel â gwaith y Cyngor, boed hi'n Gymraeg neu'n Saesneg, yn amharu ar effeithiolrwydd a safon y gwasanaeth hwn.

Y nod fydd darparu gwasanaeth o safon ymhob agwedd o waith y Cyngor - ymhob adran, yn fewnol ac yn allanol, ac yn ysgrifenedig ac ar lafar, yn unol ag ymrwymiadau'r Cynllun hwn.

Bydd safon y gwasanaeth hwn yn destun arolygu cyson gan y Prif Weithredwr, gyda'r nod o wella'r safon yn barhaus. Defnyddir amryw o dulliau gwahanol i fonitro megis gwerthuso'r elfennau Gofal Cwmser a chynhyrchu Adroddiad Monitro Blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

3.2 Gwasanaethau Ar Ran y Cyngor gan Bartion Eraill

3.2.1 Bydd unrhyw gytundeb neu drefniant a wneir gyda thrydydd parti ac sydd yn ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru, yn gyson â

Formatted: Indent: Left: 0 pt, Hanging: 36 pt

Deleted:

Deleted: ¶
2.2.6 Bydd Papur Newydd mewnol i'r staff, "Medra", yn cael ei gyhoeddi yn iaith wreiddiol yr erthyglau gyda thalfyriad yn yr iaith arall yn crynhoi'r prif bwyntiau . Pwrpas hyn yw hyrwyddo defnydd y Gymraeg o fewn y Cyngor a pharchu dewis iaith y swyddog sy'n cyfrannu at y papur. Fodd bynnag, cyhoeddir erthyglau corfforaethol gan y Prif Weithredwr neu Arweinydd y Cyngor yn ddwyieithog bob amser.¶
¶

Deleted: 7

Deleted: it

Deleted: ¶
¶
2.2.8 Mae'r Cyngor yn ymrwmo i roi ystyriaeth i'r maes Safonau Ansawdd yn y dyfodol gan ystyried y mater dan y cyd-destun ehangach o Ofal Cwsmer Corfforaethol. Bwriedir, yn ogystal, drafod y mater gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Deleted: Bydd holl wasanaethau'r Cyngor o dan reolaeth y Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr yr Adranau unigol a rhoddir crynodeb o'r gwasanaethau hynny sydd yn berthnasol i'r cyhoedd isod.¶
¶

Bydd y Prif Weithredwr hefyd yn gyfrifol am oruchwylio'r gwasanaeth dwyieithog a dderbynnir gan sefydliadau cyhoeddus eraill yng Nghymru y bydd y Cyngor yn ymwneud â nhw, gyda'r nod o annog, hwyluso a chefnogi'r sefydliadau hyn i ddarparu gwasanaeth dwyieithog cyflawn i'r cyhoedd.¶
¶

Swyddfa'r Prif Weithredwr¶

¶
<#>Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus¶
<#>Gwasanaethau Cyfreithiol a Phwyllgorau ¶
Cwynion, Gwasanaethau Cefnogol, Etholiadau, Monitro Priodoldeb, Pridiannau Tir ¶
<#>Datblygu Economaidd¶
¶

Adran Addysg a Hamdden¶

¶
<#>Addysg Feithrin, Cynradd, Arbennig, Uwchradd a Gydol Oes¶
<#>Unedau Cyn-Ysgol,

Unedau Anghenion Arbennig [6]

thelerau'r Cynllun hwn. Bydd hyn yn cynnwys (heb gyfyngiad) gwasanaethau a gaiff eu contractio allan.

Yn achos unrhyw wasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan drydydd parti, bydd y Pennaeth Gwasanaeth, perthnasol yn gyfrifol am sicrhau bod manylion llawn am ofynion penodol y Cynllun laith sy'n berthnasol i'r gwasanaeth a gcontractir allan yn cael eu cyflwyno i ddarpar ddarparwr. Bydd y Pennaeth Gwasanaeth, hefyd yn gyfrifol am fonitro'r gydymffurfiaeth hon â'r Cynllun gan adrodd ar hyn yn ei Adroddiad Monitro Adrannol blynyddol.

Deleted: Cyfarwyddwr

Deleted: Cyfarwyddwr

Bydd y Pennaeth Gwasanaeth, perthnasol hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw ddarpar ddarparwr yn ymwybodol bod angen iddynt fodloni'r Cyngor y gallant ddarparu gwasanaeth dwyieithog, yn unol ag agweddau perthnasol y Cynllun laith, i'r gwasanaeth/maes dan sylw.

Deleted: Cyfarwyddwr

Mae'r Cyngor eisoes wedi darparu canllawiau ar gyfer trydydd parti yn y cyd-destun hwn. Bydd y canllawiau hyn yn cael eu hadolygu i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion canllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Deleted: ¶

Deleted:

3.2.2 Yn wyneb goblygiadau Rheoli Perfformiad, dibyniaeth y Cyngor ar asiantaethau, cwmnïau, ymgynghorwyr proffesiynol, cyrff gwirfoddol ac unigolion allanol i gyflawni rhai o'i ddyletswyddau, mae hi'n bwysig bod y Cyngor, trwy gyfrwng y trefniadau i osod cytundeb i asiantaethau, cwmnïau, ymgynghorwyr proffesiynol, cyrff gwirfoddol ac unigolion allanol yn sicrhau bod yr asiantaeth, cwmni, ymgynghorwyr proffesiynol, cyrff gwirfoddol neu'r unigolion hynny yn gweithredu unrhyw elfennau perthnasol o'r Cynllun wrth ymdrin â'r cyhoedd ym Môn.

3.2.3 Mae'r Cynllun hwn yr un mor berthnasol i unrhyw asiantaeth neu gwmni allanol sy'n darparu gwasanaeth ar ran y Cyngor ag ydyw i'r Cyngor ei hun wrth ymdrin â'r cyhoedd.

3.2.4 Wrth osod unrhyw gytundeb, bydd y Pennaeth Gwasanaeth, perthnasol yn gyfrifol am sicrhau bod yr asiantaeth neu'r cwmni sy'n ymgymryd â gwaith, sy'n ymwneud â darparu gwasanaeth i'r cyhoedd ar ran y Cyngor, yn cydymffurfio ag anghenion ieithyddol penodol y gwasanaeth yn erbyn y Cynllun hwn. Gwneir hynny trwy gynnwys manylion perthnasol am ofynion y Cynllun yn y dogfennau tendro a yrrir at yr asiantaeth neu'r cwmni perthnasol.

Deleted: Cyfarwyddwr

Lle bydd disgwyl i drydydd parti ddarparu deunydd ysgrifenedig neu wneud cyflwyniadau i gyfarfodydd cyhoeddus y Cyngor, bydd y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol yn gyfrifol am sicrhau bod y ddarpariaeth honno'n ddwyieithog trwy gynnwys amodau penodol o fewn y cytundeb gyda'r trydydd parti dan sylw.

Bydd y Prif Weithredwr yn gyfrifol am arolygu'r drefn hon.

Pan fo'r Cyngor yn comisiynu gwasanaethau a roddir i'r cyhoedd ym Môn bydd yn sicrhau fod y ddarpariaeth yn gyson â thelerau perthnasol y cynllun hwn.

3.3 Grant a Nawdd

- 3.3.1 Bydd y Cyngor yn annog sefydliadau, cyrff neu unigolion, nad ydynt yn cynrychioli cyrff cyhoeddus ond sydd yn derbyn nawdd ariannol gan y Cyngor hwn i ddarparu ei wasanaethau i'r cyhoedd yn ddwyieithog neu'n Gymraeg.
- 3.3.2 Yn yr un modd, yn achos sefydliadau, cyrff neu unigolion, nad ydynt yn cynrychioli cyrff cyhoeddus, y bydd y Cyngor yn cydweithio gyda nhw, neu yn achos unrhyw bartneriaeth rhwng y Cyngor a sefydliadau, cyrff neu unigolion eraill, anogir prosiectau neu bartneriaethau o'r fath i ddarparu eu gwasanaethau i'r cyhoedd yn ddwyieithog.
- 3.3.3 Yn achos unrhyw nawdd sy'n cael ei gynnig i sefydliadau, cyrff neu unigolion, bydd y **Pennaeth Gwasanaeth**, perthnasol yn gyfrifol am annog derbynnydd y nawdd i ddefnyddio cyfran o'r nawdd hwnnw er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg yn ei weithgareddau. Bydd y **Pennaeth Gwasanaeth**, hefyd yn gyfrifol am fonitro sut mae'r Gymraeg wedi cael ei hyrwyddo ac yn adrodd ar hyn yn ei Adroddiad Monitro Adrannol blyneddol.

Deleted: Cyfarwyddwr

Deleted: Cyfarwyddwr

3.4 Cyflawni Swyddogaethau Statudol - Rheoleiddio

- 3.4.1 Bydd y Cyngor, wrth weithredu swyddogaeth o reoleiddio yn annog unrhyw sefydliad, corff neu unigolyn, nad ydyw'n cynrychioli corff cyhoeddus, i ddefnyddio'r Gymraeg yn ei weithgareddau. Yn ôl yr angen, darperir cyngor ar arfer dda.
- 3.4.2 Bydd y Cyngor, wrth brynu gwasanaethau gan drydydd parti ar ran y cyhoedd, mewn amgylchiadau na chyfeiriwyd atynt yn barod, yn annog y trydydd parti i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.
- 3.4.3 Bydd gofyn i'r **Pennaeth Gwasanaeth**, perthnasol annog y sawl sy'n cael ei reoleiddio ganddo/i i hyrwyddo'r Gymraeg yn ei weithgareddau e.e. cynhyrchu taflenni, arwyddion, hysbysebion dwyieithog. Bydd y **Pennaeth Gwasanaeth**, hefyd yn gyfrifol am fonitro sut mae'r Gymraeg wedi cael ei hyrwyddo ac yn adrodd ar hyn yn ei Adroddiad Monitro Adrannol blyneddol.

Deleted: Cyfarwyddwr

Deleted: Cyfarwyddwr

Deleted:

3.5 Partneriaeth (Ffurfiol ac Anffurfiol)

Mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â chyrrff cyhoeddus, sefydliadau o'r sector wirfoddol ac asiantaethau eraill. Mae'r Cyngor yn gweithredu ar sawl lefel wrth gydweithio ag eraill:

Pan fo'r Cyngor yn arwain partneriaeth, yn strategol ac yn ariannol, bydd yn sicrhau fod y ddarpariaeth gyhoeddus yn **cydymffurfio â gofynion y** Cynllun Iaith **Gymraeg hwn**, e.e. Grwp Strategol Trosedd ac Anhrefn.

Deleted: unol â'r

Deleted:

Formatted: Indent: Left: 36 pt

Pan fo'r Cyngor yn ymuno â phartneriaeth y mae corff arall yn ei harwain, bydd mewnbyn y Cyngor i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â **gofynion y** Cynllun Iaith **Gymraeg hwn** a bydd y Cyngor yn annog y partion eraill i gydymffurfio, e.e. Grwp Iechyd Lleol.

Deleted:

Deleted: 'r

Deleted:

Pan fo'r Cyngor yn gweithredu fel rhan o gonsortia, bydd yn annog y consortia i fabwysiadu polisi iaith. Wrth weithredu'n gyhoeddus yn enw'r Consortia bydd y Cyngor yn gweithredu'n unol â gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg hwn.

Deleted: 'i

Deleted: G

Pan fo'r Cyngor yn ymuno â neu'n ffurfio partneriaeth, bydd yn gofyn i'r darpar bartneriaid am eu Cynlluniau iaith, polisiau iaith neu'r modd y maent yn bwriadu gweithredu yn ddwyieithog. Fel rhan o bob partneriaeth, bydd y Cyngor yn cynnig cyngor a chymorth i'r partion eraill sy'n rhan o'r bartneriaeth.

Cyd-ddarparu Gwasanaethau

Formatted: Font: Bold

Mae trefniadau cyd-ddarparu a chyd-ariannu gwasanaethau yn allweddol i'r dyfodol ac yn faes y bydd gofyn i'r Cyngor ei ddatblygu fwyfwy. Wrth ddatblygu strwythurau a chytundebau gydag eraill, bydd y Cyngor yn gwarchod a sicrhau disgwyliadau trigolion y Sir o safbwynt gwasanaethau dwyieithog.

Wrth ddrafftio ac adolygu cytundebau cyd-ddarparu a chyd-ariannu, bydd y Cyngor yn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y cynllun yma a hynny er mwyn sicrhau nad yw'r trefniadau'n arwain at unrhyw ddirywiad mewn darpariaeth ddwyieithog i'r cyhoedd. Byddwn yn monitro'r cytundebau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

Byddwn yn manteisio ar y cyfle a gynigir i godi ymwybyddiaeth o broffil a phwysigrwydd yr iaith Gymraeg o fewn y Sir gyda'n cyd-ddarparwyr ac i gydweithio tuag at well darpariaeth dwyieithog ar draws wasanaethau.

Bydd y Cyngor hwn yn pwysu am gyfleoedd i alluogi aelodau staff i barhau i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg pan yn cyd-ddarparu pan ym ymarferol i wneud hynny.

4.0 Delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

4.1 Delio Wyneb yn Wyneb â'r Cyhoedd

4.1.1 Bydd croeso i bobl siarad yn Gymraeg neu yn Saesneg wrth ymdrin â staff y Cyngor. Bydd angen i adrannau gymryd camau i sicrhau bod eu staff rheng flaen, sy'n gwasanaethu'r cyhoedd o ddydd i ddydd, e.e. delio gydag ymholiadau, ateb galwadau ffôn, yn siarad Cymraeg. Mae pob Adain Gwasanaeth o fewn y Cyngor fel arfer yn gallu darparu gwasanaeth dwyieithog.

Os bydd y sawl sy'n galw yn un o sefydliadau'r Cyngor yn siarad Cymraeg a'r swyddog sy'n ei (g)wasanaethu yn methu siarad Cymraeg, dylai'r swyddog esbonio na all siarad Cymraeg a gofyn a ydyw'r cwsmer yn dymuno siarad hefo siaradwr Cymraeg. Os bydd y cwsmer yn dymuno siarad hefo siaradwr Cymraeg dylid nôl swyddog dwyieithog i wasanaethu'r cwsmer. (Mewn achosion lle bo'r swyddog sy'n gwasanaethu yn ddysgwr(aig), anogir y swyddog i ddefnyddio ac ymarfer ei G/Chymraeg).

Deleted: ¶

Deleted: Bydd angen i adrannau gymryd camau i sicrhau bod eu staff rheng flaen, sy'n gwasanaethu'r cyhoedd o ddydd i ddydd, e.e. delio gydag ymholiadau, ateb galwadau ffôn, yn siarad Cymraeg. Mae pob Adain Gwasanaeth o fewn y Cyngor fel arfer yn gallu darparu gwasanaeth dwyieithog.

Yn y modd hwn, nod y Cyngor yw hysbysu ei gwsmeriaid am y Cynllun a'i amcanion, yn ogystal â'r hyn y gallant ei ddisgwyl gan y Cyngor yng nghyswllt gwasanaeth dwyieithog cyflawn.

4.2 Gohebu Ysgrifenedig

4.2.1 Bydd croeso i'r cyhoedd ohebu yn ysgrifenedig â'r Cyngor yn y Gymraeg neu'r Saesneg fel ei gilydd. Bydd yr ohebiaeth yn cael ei hateb gan y Cyngor yn iaith yr ohebiaeth wreiddiol a bydd llythyrau a anfonir gan y Cyngor, boed y rheiny yn Gymraeg neu yn Saesneg, yn cael eu llofnodi. Bydd llythyrau, ym mha iaith bynnag y bônt, yn cael eu hateb yn unol â'r targedau ateb llythyrau corfforaethol (o fewn 15 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y llythyr gwreiddiol neu o fewn targedau eraill y cytunwyd arnynt).

Deleted: ymdrin

4.2.2 Pan fo'r Cyngor yn cychwyn gohebiaeth, gwneir hynny yn newis iaith y derbynnydd os yw hynny'n wybyddus ac, os nad ydyw, bydd yr ohebiaeth yn ddwyieithog.

Deleted: dylid defnyddio d

Deleted: o

Deleted: o

Deleted: dylid cychwyn g

Pan fo swyddog yn cychwyn gohebiaeth gyda chorff cyhoeddus arall, anogir y swyddog i ohebu'n Gymraeg.

Gellir gohebu â chorff cyhoeddus y tu allan i Gymru fodd bynnag yn iaith y wlad lle lleolir y corff hwnnw yn unig. Mae rhai cyrff cyhoeddus a'u canolfannau yn Lloegr hefyd yn gwasanaethu Cymru ac o'r herwydd mae ganddynt Gynlluniau iaith Gymraeg, ac mewn achosion o'r fath, anogir swyddogion y Cyngor hwn i ohebu'n Gymraeg gyda chyrrff o'r fath.

4.2.3 Bydd unrhyw bapur newydd, cylchlythyrau neu lythyrau safonol a yrrir at y cyhoedd yn ddwyieithog.

4.2.4 Os bydd swyddog yn gohebu ag aelod o'r cyhoedd ar ôl siarad wyneb yn wyneb ag o/hi yn Gymraeg neu ar ôl siarad gydag o/hi dros y ffôn yn Gymraeg, bydd yr ohebiaeth honno yn Gymraeg oni bai fod yr aelod o'r cyhoedd yn dymuno derbyn gohebiaeth yn y Saesneg.

4.2.5 Pan fydd swyddog di-Gymraeg, neu swyddog ansicr ei Gymraeg, yn ymdrin â gohebiaeth Gymraeg bydd yn sicrhau cymorth cydweithiwr neu gyfieithwyr y Cyngor er mwyn ymateb yn Gymraeg i'r ohebiaeth. Oni ddefnyddir gwasanaeth y cyfieithwyr, defnyddir cydweithiwr sydd â Chymraeg ysgrifenedig o safon uchel.

Deleted: 4.2.6

Deleted: Bydd llythyrau, ym mha iaith bynnag y bônt, yn cael eu hateb yn unol â'r targedau ateb llythyrau corfforaethol (o fewn 15 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y llythyr gwreiddiol neu o fewn targedau eraill y cytunwyd arnynt).

Deleted: 7

Deleted: Cyfarwyddwyr

Deleted: hadrannau

4.2.6 Bydd Penaethiaid Gwasanaeth y Cyngor yn gyfrifol am sicrhau bod holl staff eu gwasanaethau yn ymwybodol o'r trefniadau hyn ac am hysbysu swyddogion di-Gymraeg o'r ddarpariaeth sydd ar gael er mwyn gohebu yn Gymraeg h.y. oni allant lunio llythyr yn y Gymraeg eu hunain, dylent wneud trefniadau i'w gyfieithu i'r Gymraeg o fewn yr adran neu, os oes angen, gael yr Uned gyfieithu i brawf- ddarllen y llythyr Cymraeg cyn ei anfon.

Mae'r Cyngor wedi darparu taflen wybodaeth i staff er mwyn sicrhau bod pawb yn gyfarwydd â'r trefniadau uchod.

4.2.7 Bydd pecyn Cysgair ar gael ar gyfer pob swyddog.

4.3 Ffonio

4.3.1 Wrth ateb galwad ffôn allanol (gan gynnwys galwadau brys) bydd gofyn i swyddog ateb y ffôn trwy ddweud "Helo"ac yna enw'r Adran yn ddwyieithog. Bydd galwadau a dderbynnir i brif dderbynfa'r Cyngor yn cael eu hateb yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf.

Formatted: Indent: Hanging: 36 pt

4.3.2 Bydd croeso i bobl siarad yn Gymraeg neu yn Saesneg wrth ffonio'r Cyngor.

Deleted: 1

4.3.3 Os bydd y sawl sy'n galw yn siarad Cymraeg a'r swyddog sy'n ateb yn methu siarad Cymraeg, dylai'r swyddog esbonio na all siarad Cymraeg a gofyn a ydyw'r galwr yn dymuno siarad hefo siaradwr Cymraeg. Os bydd y galwr yn dymuno siarad hefo siaradwr Cymraeg dylid trosglwyddo'r alwad i siaradwr Cymraeg a all ymdrin â'r mater, neu, onid oes neb ar gael, hysbysu'r galwr y bydd siaradwr Cymraeg yn ei ffonio'n ôl cyn gynted â phosibl. (Mewn achosion lle bo'r swyddog sy'n ateb galwad yn ddysgwr(aig), anogir y swyddog i ddefnyddio ac ymarfer ei G/Chymraeg).

Deleted: 2

4.3.4 Bydd negeseuon ar holl beiriannau ateb y Cyngor yn ddwyieithog, gyda'r neges Gymraeg yn gyntaf.

Deleted: 3

Mae'r manylion hyn wedi cael eu cynnwys mewn taflen wybodaeth i staff.

Deleted: am

4.4 Cyfarfodydd Cyhoeddus (Yn Cynnwys Gwrandawiadau, Ymholiadau ac Achosion Cyfreithiol Eraill)

4.4.1 Bydd croeso i staff y Cyngor a'r cyhoedd, mewn cyfarfodydd cyhoeddus a drefnir gan y Cyngor, siarad Cymraeg neu Saesneg yn ôl eu dymuniad gan y bydd y Cyngor yn cynnal y cyfarfodydd yn ddwyieithog. Defnyddir offer cyfieithu parhaol yn yr ystafelloedd hynny o eiddo'r Cyngor lle mae offer o'r fath, neu fel arall defnyddir offer cyfieithu symudol. Pan yn ateb cwestiwn gan aelod o'r cyhoedd mewn cyfarfod o'r fath, bydd yr ymateb yn yr iaith y gofynnwyd y cwestiwn ynnddi.

4.4.2 Hysbysir y cyhoedd mewn cyfarfodydd o'r fath bod offer cyfieithu ar gael ac y bydd croeso iddynt ddefnyddio eu dewis iaith. Fodd bynnag y nod fydd gwneud cyfarfodydd dwyieithog yn norm fel na fydd angen cyhoeddiadau o'r fath.

4.4.3 Mewn cyfarfodydd cyhoeddus gwneir pob ymdrech i sicrhau y bydd swyddogion sy'n gwasanaethu'r Cyngor yn swyddogion dwyieithog. Oni ellir trefnu hyn, defnyddir offer cyfieithu symudol y Cyngor i sicrhau y gall y rhai sy'n bresennol siarad yn eu dewis iaith. Gwneir pob ymdrech i sicrhau fod delwedd a gweinyddiaeth y cyfarfodydd yn ddwyieithog.

- 4.4.4 Yn achos cyfarfodydd o'r fath bydd y sawl sy'n gyfrifol am drefnu'r cyfarfod hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod neges yn cael ei chyfleu ar raglen, gwahoddiad, neu hysbyseb sydd ynglyn â'r cyfarfod, i ddynodi y bydd gwasanaeth cyfieithu ar gyfer y di-Gymraeg yn y cyfarfod. Bydd yn gyfrifoldeb ar Gadeirydd y cyfarfod i roi arweiniad ar y defnydd iaith ar gychwyn y cyfarfod.

Bydd hyn yn dwyn pwysau oddi ar y swyddogion mewn cyfarfodydd o'r fath i gyfeirio at y gwasanaeth cyfieithu ac yn gwneud y drefn o gynnal cyfarfodydd dwyieithog yn un naturiol.

4.5 Cyfarfodydd Eraill

- 4.5.1 Bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau bob amser y bydd staff sy'n dod igysylltiad â'r cyhoedd, boed hynny yn y swyddfa, yn y cartref, ar safle ayyb yn ddwyieithog.

Oni fydd hyn yn bosibl yn y swyddfa dylai'r swyddog di-Gymraeg esbonio i'r aelod o'r cyhoedd dan sylw na all siarad Cymraeg a gofyn a ydyw'n dymuno siarad hefo siaradwr Cymraeg. Os bydd yr aelod o'r cyhoedd yn dymuno siarad Cymraeg dylid nôl swyddog dwyieithog i ddelio gyda'r mater. (Mewn achosion o'r fath lle bo'r swyddog yn ddysgwr(aig), anogir y swyddog i ddefnyddio ac ymarfer ei G/Chymraeg).

- 4.5.2 Yn achos cyfarfodydd y tu allan i adeiladau'r Cyngor e.e. cyfarfodydd yng nghartrefi aelodau o'r cyhoedd neu gyfarfodydd yn y maes, [gwneir trefniadau i sicrhau mai swyddog dwyieithog fydd yn mynd i'r cyfarfod. Os bydd y Cyngor yn ymwybodol o ddewis iaith y cwsmer ymlaen llaw, bydd gallu ieithyddol y swyddog yn adlewyrchu hynny.](#)

Deleted: lle bydd hi'n wybyddus y bydd y swyddog yn cyfarfod â siaradwr dwyieithog, gwneir trefniadau i sicrhau mai swyddog dwyieithog fydd yn mynd i'r cyfarfod

4.6 Ymdrin â'r Cyhoedd Mewn Ffyrdd Eraill

- 4.6.1 Bydd unrhyw gysylltiadau â'r cyhoedd trwy gyfrwng cyfrifiadurol e.e. safle gwe y Cyngor, [gwasanaethau ar-lein](#), e-bost, sgriniau cyffwrdd, systemau sain cyhoeddus, offer fideo gynadledda, [rhwydweithiau cymdeithasol \(megis facebook, twitter ayyb\)](#) yn cydymffurfio gyda'r ddarpariaeth dan 'Gohebu Ysgrifenedig' uchod.

Deleted: ac

Bydd unrhyw ddeunydd neu wybodaeth a roddir ar safle gwe'r Cyngor yn gwbl ddwyieithog, gyda [dewis iaith](#) ar y dudalen agoriadol.

Deleted: 'r Gymraeg yn gyntaf

- 4.6.2 Bydd y Cyngor yn sicrhau ac yn hyrwyddo amgylchedd dwyieithog gweledol yn swyddfeydd ac adeiladau'r Cyngor.

Mewn ystafelloedd a manau aros yn swyddfeydd neu yn adeiladau'r Cyngor dylid cynnal cyflenwad o lyfrynnau/cylchgronau Cymraeg a Saesneg a dylai cyfran o'r testunau Saesneg fod yn Gymreig eu naws.

Mewn llecynnau arddangos, bydd y deunydd a arddangosir yn ddwyieithog.

5.0 **Wyneb Cyhoeddus y Cyngor**

5.1 **Hunaniaeth Gorfforaethol**

- 5.1.1 Bydd wyneb cyhoeddus a hunaniaeth gorfforaethol y Cyngor yn gwbl ddwyieithog.
- 5.1.2 Bydd hyn yn cynnwys enw'r Cyngor a'i adrannau, a'i holl gyfeiriadau perthnasol, ei logo, ei slogan corfforaethol, papur pennawd, cyhoeddiadau a'i holl ddeunydd ysgrifenedig cyhoeddus boed hwnnw ar ffurf adroddiad, arwydd, ffurflen, hysbysiad, rhybudd neu ysgrifen ar adeilad, cerbyd neu beiriant o eiddo'r Cyngor.
- 5.1.3 Yn achos arwyddeiriau megis "Môn Mam Cymru", ni fyddant yn cael eu cyfieithu.

5.2 **Arwyddion**

- 5.2.1 Bydd holl arwyddion mewnol ac allanol y Cyngor (gan gynnwys arwyddion/marciau ffyrdd) yn gwbl ddwyieithog.
- 5.2.2 Bydd y Cyngor yn arddel y fersiwn Gymraeg yn unig o enwau lleoedd, afonydd, mynyddoedd ayyb, ac ar sefydliadau'r Cyngor heblaw mewn achosion lle mae'r Cyngor wedi cydnabod fersiwn Saesneg swyddogol.

Lle cydnabyddir fersiwn Saesneg swyddogol dylid ei defnyddio mewn cyd-destun Saesneg yn unig.

Lle enwir strydoedd neu ystadau newydd, bydd yr enwau newydd yn cael eu seilio ar enwau cynhenid, hanesyddol yr ardal yn Gymraeg. Pan fo'n rhaid bathu enw newydd, gwneir hynny'n Gymraeg yn unig.

- 5.2.3 Pan fydd y Gymraeg a'r Saesneg yn ymddangos gyda'i gilydd ar arwyddion byddant yn gyfartal o ran ffurf, maint, eglurder, amlygrwydd ac ansawdd, a bydd y Gymraeg naill ai uwchben y Saesneg, neu os ydyw'r ddwy iaith yn gyfochrog ar y chwith. Os bydd yn rhaid eu darparu ar wahân, byddant yn gyfartal o ran ffurf, maint, eglurder, amlygrwydd ac ansawdd a bydd yr arwydd Cymraeg un ai uwchben yr un Saesneg neu os byddant ochr yn ochr, ar y chwith.
- 5.2.4 Cyn bo ceisiadau cynllunio am arwyddion yn cael eu caniatáu, anogir y sawl a fydd yn holi am fanylion cyflwyno cais cynllunio i osod arwydd(ion) dwyieithog ac yn unol â hyn bydd Adran yr Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol yn cynnwys 'Cymorth Dylunio' i'r ymgeisydd, sef taflen fer sy'n rhoi cymorth a chynghor iddo/i gynllunio a chyfieithu arwydd. Bydd y daflen hon yn ddwyieithog.
- 5.2.5 Bydd Uned Datblygu Economaidd y Cyngor yn hyrwyddo defnydd arwyddion dwyieithog ar adeiladau busnes.

Yn amodol ar gyllid, rhoddir cymhorthdal at gost darparu arwyddion busnes dwyieithog, a bydd hyn yn cael ei farchnata ar y cyd efo grantiau busnes eraill.

Bydd y cynllun grant i wella adeiladau masnachol yn cynnwys amodau sy'n delio efo defnydd arwyddion dwyieithog ble byddant i'w gweld gan y cyhoedd.

5.3 Cyhoeddi ac Argraffu Deunydd Cyhoeddus

- 5.3.1 Bydd unrhyw ddeunydd cyhoeddus a gyhoeddir gan y Cyngor, yn gwbl ddwyieithog. Bydd hyn yn cynnwys adroddiadau, cofnodion, ffurflenni, polisïau, is-ddeddfau ayyb.

Bydd hyn hefyd yn cynnwys deunydd cyrff a chwmnïau eraill a fydd o dro i dro yn cael ei arddangos yn adeiladau'r Cyngor.

Mae'r Cyngor wedi paratoi taflen ar gyfer cyrff eraill a fydd yn arddangos eu deunydd sydd yn nodi disgwyliadau'r Cyngor ac yn cynnig cymorth megis gwybodaeth am grantiau, gwasanaethau cyfieithu ac argraffu.

- 5.3.2 Bydd deunydd **printiedig** yn cael ei gyhoeddi'n ddwyieithog ar yr un ddalen neu yn yr un ddogfen (fel y bo'n briodol), ac yn gyfochrog, gyda'r Gymraeg ar y chwith a'r Saesneg ar y dde.

Deleted: y

Deleted: hwn

Lle nad ydyw'n bosibl neu'n ymarferol cyhoeddi **deunydd printiedig yn y** ddwy iaith ar yr un ddalen neu yn yr un ddogfen, bydd y ddwy iaith yn gyfartal o ran ffurf, maint, eglurder, amlygrwydd **ac ansawdd**, ac yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd a bydd hi yr un mor hawdd i gael copi o'r testun yn y naill iaith neu'r llall.

Deleted: 'r

Deleted:

Mae'n bwysig nodi nad yw meddalwedd darllen sgrin yn gallu darllen testun mewn modd rhesymegol pan mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn ymddangos yn gyfochrog ar yr un dudalen. Y rheswm am hyn yw bod y meddalwedd yn darllen o'r chwith i'r dde ar draws y dudalen. Os yw'r Gymraeg a'r Saesneg yn ymddangos ar yr un dudalen mewn deunydd electronig, dylid sicrhau bod fersiwn hygyrch yn cael ei chyhoeddi hefyd.

- 5.3.3 Er mwyn sicrhau unffurfiaeth ac er mwyn osgoi dryswch, un wyddor fydd yn cael ei defnyddio wrth ddynodi paragraffau ac adrannau etc mewn testunau, a'r wyddor Gymraeg fydd honno.

Darperir canllaw ar y polisi hwn mewn taflen wybodaeth ar gyfer y staff ac ar gyfer cyhoeddwyr ac argraffwyr a chyrrff a chwmnïau a gyflogir gan y Cyngor trwy gytundebau allanol.

Ar Rhaglenni a Chofnodion Pwyllgorau'r Cyngor defnyddir dull rhifyddol yn bennaf ar gyfer dynodi paragraffau, yn hytrach na llythrennau. Byddant yn cael eu cyhoeddi gyda'r fersiwn Gymraeg o'r testun ar yr ochr chwith o'r papur a'r fersiwn Saesneg o'r testun ar yr ochr dde.

5.4 Tafllenni, Llyfrynau, Ffurflenni a Deunydd Esboniadol

- 5.4.1 Bydd tafllenni, llyfrynau, ffurflenni a deunydd esboniadol sy'n gysylltiedig â chyhoeddiadau cyhoeddus y Cyngor yn gwbl ddwyieithog.

- 5.4.2 Bydd deunydd printiedig o'r fath yn cael ei gyhoeddi'n ddwyieithog ar yr un ddalen neu yn yr un ddogfen (fel y bo'n briodol), yn gyfochrog, gyda'r Gymraeg ar y chwith a'r Saesneg ar y dde.

Darperir canllaw ar y polisi hwn mewn taflen wybodaeth ar gyfer y staff ac ar gyfer cyhoeddwr ac argraffwr a chyrrff a chwmnïau a gyflogir gan y Cyngor trwy gytundebau allanol.

Lle nad ydyw'n bosibl neu'n ymarferol cyhoeddi deunydd printiedig yn y ddwy iaith ar yr un ddalen neu yn yr un ddogfen, bydd y ddwy iaith yn gyfartal o ran ffurf, maint, eglurder, amlygrwydd, ac ansawdd, ac yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd a bydd hi yr un mor hawdd i gael copi o'r testun yn y naill iaith neu'r llall.

Deleted: 'r

Deleted:

Mae'n bwysig nodi nad yw meddalwedd darllen sgrin yn gallu darllen testun mewn modd rhesymegol pan mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn ymddangos yn gyfochrog ar yr un dudalen. Y rheswm am hyn yw bod y meddalwedd yn darllen o'r chwith i'r dde ar draws y dudalen. Os yw'r Gymraeg a'r Saesneg yn ymddangos ar yr un dudalen mewn deunydd electronig, dylid sicrhau bod fersiwn hygyrch yn cael ei chyhoeddi hefyd.

- 5.4.3 Gall ffurflenni neu ddeunydd esboniadol fod yn rhan o'r prif destun neu ar wahân. Os bydd ar wahân, rhaid sicrhau y bydd ar gael ar yr un pryd a'r prif destun.

- 5.4.4 Mae'r Cyngor yn cynhyrchu Llyfryn Twristiaeth Ynys Môn fel rhan o'i strategaeth i farchnata'r awdurdod lleol a'i bartneriaid i gynyddu'r nifer o ymwelwyr i'r Ynys ac i roi gwybodaeth ddefnyddiol a pherthnasol iddynt am yr hyn sydd gan Ynys Môn i'w gynnig.

Bydd pob llawlyfr a thaflen sy'n darparu gwybodaeth dwristiaeth fanwl, ac sy'n cael eu cylchredeg trwy Ogledd Cymru, yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog.

5.5 Datganiadau i'r Wasg a'r Cyfryngau

- 5.5.1 Bydd pob datganiad gan y Cyngor i'r wasg neu i'r cyfryngau yn gwbl ddwyieithog.
- 5.5.2 Bydd cysylltiadau â'r wasg neu'r cyfryngau yn Gymraeg neu'n Saesneg, gan ddibynnu ar iaith y gohebydd perthnasol. Oni fydd swyddog yn gwybod am allu ieithyddol gohebwr dylai gysylltu trwy lythyr dwyieithog.

5.6 Hysbysebu a Chyhoeddusrwydd

- 5.6.1 Bydd ymgyrchoedd hysbysebu a chyhoeddusrwydd y Cyngor yn rhai cwbl ddwyieithog ym mha bynnag ffurf y bo e.e. datganiadau, taflenni, poster, rhybuddion ayyb.
- 5.6.2 Bydd y fersiwn Gymraeg uwchben y fersiwn Saesneg, neu lle bo'r testun yn gyfochrog, bydd y fersiwn Gymraeg ar y chwith, a byddant yn gyfartal o ran

ffurf, maint, eglurder, amlygrwydd ac ansawdd, boed hynny yn y wasg, ar hysbysfyrddau neu fel arall.

5.6.3 Yr unig eithriad fydd yn achos rhaglenni radio neu deledu. Bydd iaith yr hysbyseb yn dibynnu ar y sianel dan sylw. Yn achos sianelau a dderbynnir yng Nghymru (boed y rheiny drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg), bydd hysbysebion yn ddwyieithog. Ar y llaw arall, yn achos sianelau a dderbynnir yn Lloegr yn bennaf, bydd unrhyw hysbysebion a ddarledir arnynt yn Saesneg yn unig.

5.6.4 Wrth gysylltu â'r radio neu'r teledu, bydd iaith gohebiaeth yn dibynnu ar iaith y gohebydd perthnasol. Oni fydd swyddog yn gwybod am allu ieithyddol gohebwr bydd yn cysylltu trwy lythyr dwyieithog.

5.7 Hysbysiadau Cyhoeddus a Hysbysiadau Swyddogol

Bydd hysbysiadau cyhoeddus swyddogol y Cyngor yn rhai cwbl ddwyieithog ar ffurf gyfochrog gyda'r testun Cymraeg ar y chwith. Lle na fydd hyn yn ymarferol, bydd un testun uwchben y llall gyda'r Gymraeg uchaf. Ymhob achos fodd bynnag, bydd y testunau yn gyfartal o ran ffurf, maint, eglurder, amlygrwydd ac ansawdd, boed hynny yn y wasg, ar hysbysfyrddau neu fel arall.

Mae'n bwysig nodi nad yw meddalwedd darllen sgrin yn gallu darllen testun mewn modd rhesymegol pan mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn ymddangos yn gyfochrog ar yr un dudalen. Y rheswm am hyn yw bod y meddalwedd yn darllen o'r chwith i'r dde ar draws y dudalen. Os yw'r Gymraeg a'r Saesneg yn ymddangos ar yr un dudalen mewn deunydd electronig, dylid sicrhau bod fersiwn hygyrch yn cael ei chyhoeddi hefyd.

5.8 Hysbysebion Swyddi

Bydd hysbysebion ar gyfer swyddi yn ddwyieithog. (Mae hyn yn cynnwys hysbysebion yn y wasg Saesneg yng Nghymru ac mewn cylchgronau neu bapurau newydd yn Lloegr).

Bydd hysbysebion printiedig o'r fath yn gyfochrog gyda'r Gymraeg ar y chwith. Lle na fydd hyn yn ymarferol, bydd un testun uwchben y llall gyda'r Gymraeg uchaf. Ymhob achos fodd bynnag, bydd y testunau yn gyfartal o ran ffurf, maint, eglurder, amlygrwydd ac ansawdd, boed hynny yn y wasg, ar hysbysfyrddau neu fel arall.

Mae'n bwysig nodi nad yw meddalwedd darllen sgrin yn gallu darllen testun mewn modd rhesymegol pan mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn ymddangos yn gyfochrog ar yr un dudalen. Y rheswm am hyn yw bod y meddalwedd yn darllen o'r chwith i'r dde ar draws y dudalen. Os yw'r Gymraeg a'r Saesneg yn ymddangos ar yr un dudalen mewn deunydd electronig, dylid sicrhau bod fersiwn hygyrch yn cael ei chyhoeddi hefyd.

Yn achos swyddi mewn ysgolion, cyfrifoldeb y llywodraethwyr yw hysbysebu'r swyddi hynny a mater iddynt hwy yw penderfynu ar natur, cost a chynnwys yr hysbysebion. Er mwyn lleihau costau, cynigir gwasanaeth Asiantaeth Hysbysebu'r Awdurdod Addysg Lleol i bob ysgol. Caniateir i ysgolion hysbysebu yn y Gymraeg yn unig gan fod y gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn ysgrifenedig ac ar lafar yn hanfodol ar gyfer eu swyddi. Cynhwysir brawddeg yn yr hysbyseb sy'n esbonio hynny yn Saesneg.

Bydd hysbysebion mewn papurau/cylchgronau Cymraeg eu hiaith yn Gymraeg yn unig.

5.9 **Ffilmiau, Fideo, Tapiau a Deunydd Clyweledol**

Bydd ffilmiau, fideo, tapiau a deunydd clyweledol sy'n gysylltiedig â gwasanaethu'r cyhoedd un ai yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf, neu yn Gymraeg a Saesneg ar wahân (pa un bynnag sydd yn briodol). Bydd y naill iaith neu'r llall ar gael bob amser beth bynnag fo iaith y gynulleidfa. Pan fo'r gynulleidfa yn ddwyieithog, dylid defnyddio'r ddwy iaith gan ddefnyddio'r Gymraeg yn gyntaf.

5.10 **Arddangosfeydd, Cynadleddau a Seminarau**

Bydd deunydd arddangos cysylltiol mewn perthynas ag arddangosfeydd, cynadleddau a seminarau yn ddwyieithog bob amser gyda'r Gymraeg ar y chwith neu uwchben y Saesneg, pa ddiwyg bynnag sydd fwyaf perthnasol. Yn ogystal, bydd y ddwy iaith yn gyfartal o ran ffurf, maint, eglurder, amlygrwydd ac ansawdd.

5.11 **Postio Uniongyrchol**

Mewn achosion lle fo'r Cyngor yn defnyddio gwasanaeth postio uniongyrchol bydd y testunau cysylltiedig yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg ar y chwith neu uwchben y Saesneg, pa ddiwyg bynnag sydd fwyaf perthnasol. Yn ogystal, bydd y ddwy iaith yn gyfartal o ran ffurf, maint, eglurder, amlygrwydd ac ansawdd.

5.12 **Dulliau Ymateb**

Yn unol â'r darpariaethau dan 'Ffonio' uchod bydd y Cyngor yn darparu gwasanaeth dros y ffôn yn ddwyieithog. Bydd negeseuon ar linellau cymorth ac ar beiriannau ateb yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf.

5.13 **Gwaith Marchnata**

Bydd unrhyw ymgyrchoedd marchnata a gynhelir gan, neu ar ran y Cyngor yn rhai cwbl ddwyieithog (ac eithrio rhai ymgyrchoedd y tu allan i Gymru i ddenu mewnfuddsoddiad neu dwristiaid).

Golyga hyn y bydd unrhyw waith hysbysebu, cyhoeddi, ymchwil yn gwbl ddwyieithog, ac yn achos arolygon ymchwil, bydd y Cyngor yn sicrhau y bydd

staff a fydd yn dod i gysylltiad â'r cyhoedd, boed nhw yn uniongyrchol gyflogedig gan y Cyngor, neu o gwmni/corff allanol trwy gytundeb, yn ddwyieithog, ac yn cynnwys gwasanaeth cwbl ddwyieithog i'r cyhoedd e.e. wrth gwblhau holiaduron. Yn ogystal, cynigir unrhyw gyfweiliad yn Gymraeg neu Saesneg. Gallai arolygon hefyd fod yn ceisio barn siaradwyr Cymraeg yn benodol, er mwyn cael darlun o safon ac amrediad y gwasanaeth Cymraeg.

5.14 Diwylliant a Threftadaeth

Bydd ein diwylliant yn cael ei hyrwyddo ar lefel gorfforaethol gyda chyfrifoldeb ar bob Cyfarwyddwr i sicrhau hyn, ac yn arbennig yn yr Adran Addysg a Hamdden sy'n gyfrifol am faterion treftadaeth, a'r Adain Datblygu Economiadd sy'n gyfrifol am faterion twristiaeth. Mae llyfryn Twristiaeth y Cyngor yn un enghraifft o ddeunydd sy'n hyrwyddo diwylliant a threftadaeth yr ynys. Bydd yr Adran a'r Adain hon, ynghyd ag unrhyw Adran arall a fydd yn ymdrin â materion diwylliannol yn achlysurol, yn adrodd yn flynyddol ar eu cyraeddiadau dan y pennawd hwn.

6.0 Gweithredu ac Arolygu'r Cynllun

6.1 Staffio

- 6.1.1 Er mwyn gallu sicrhau gwasanaeth cyfartal yn y Gymraeg a'r Saesneg i'r cyhoedd, bydd y Cyngor yn mabwysiadu Strategaeth Sgiliau Ieithyddol er mwyn sicrhau bod y swyddogion hynny y mae'n rhesymol disgwyl iddynt ddelio gyda'r cyhoedd yn medru gwneud hynny yn newis iaith y cyhoedd.

Deleted: sy'n ymweld â swyddfeydd y Cyngor neu adeiladau cyhoeddus eraill sydd yn eiddo iddo (e.e.canolfannau hamdden)

Bydd y Cyngor yn sicrhau y bydd gweithleoedd o fewn yr awdurdod, sydd â chysylltiad â'r cyhoedd, yn cynnwys swyddog(ion) dwyieithog digonol (gan gynnwys dysgwyr sy'n gallu cyfathrebu yn Gymraeg a Saesneg hyd at lefel sydd yn dderbyniol i ofynion y swydd), fel bod gwasanaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg ar gael i'r cyhoedd.

Mae proses ddiwygiedig o Adolygu Perfformiad yn darparu asesiad blynyddol o feistrolaeth ar iaith pob aelod o'r staff ynghyd ag unrhyw anghenion datblygu.

Bydd y swyddogion a gyflogir ar y switsfwrdd yn swyddogion dwyieithog. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod pob galwad allanol yn cael ei hateb gyda chyfarchiad dwyieithog ar y switsfwrdd a hefyd ar estyniadau unigol.

- 6.1.2 Bydd rhai swyddi lle na fydd eu deiliaid yn dod i gysylltiad â'r cyhoedd. Serch hynny, oherwydd natur rhai o'r swyddi hyn, bydd gofyn i'r deiliaid fod â sgiliau dwyieithog fydd yn amrywio o swydd i swydd. Yn achos rhai swyddi eraill, lle na fydd y swyddogion yn dod i gysylltiad â'r cyhoedd a lle na fydd y gallu i siarad Cymraeg yn sgil hanfodol ar gyfer y swydd, bydd y swyddogion hynny yn cael eu hannog i ddysgu Cymraeg er mwyn hwyluso'r cydweithio gyda staff o fewn eu hunedau/adrannau, a rhwng adrannau yn gyffredinol.

6.1.3 Bydd y Cyngor yn dynodi pa sgiliau ieithyddol llafar ac ysgrifenedig sydd eu hangen ar gyfer pob swydd. Bydd y gofynion hyn yn unigryw ar gyfer pob swydd ac yn nodi'r hyfedredd sydd ei angen ar lafar ac yn ysgrifenedig ar gyfer pob swydd a bydd y wybodaeth hon yn cael ei chynnwys wrth hysbysebu unrhyw swydd yn y dyfodol, ac yn cael ei chofnodi'n ganolog ar sail penodiadau.

6.1.4 Bydd angen i bob Cyfarwyddwr Corfforaethol/Pennaeth Gwasanaeth ystyried yn ofalus natur a dyletswyddau y swyddi unigol sydd o fewn eu cyfrifoldebau a phennu pa sgiliau ieithyddol sydd eu hangen ar gyfer pob swydd a balans ieithyddol y tim. Dylid cyflwyno'r wybodaeth honno i'w hystyried gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ac i'w chymeradwyo gan y pwyllgor gweithredol. Cydnabyddir fod cynllunio ieithyddol yn bwysig ynghyd â chael cyfundrefn o fonitro faint o siaradwyr Cymraeg sydd o fewn y sefydliad.

Deleted: Trosolwg Polisi Datblygu, Gwasanaethau Sylfaenol ac Adnoddau

Deleted: P

Deleted: Gwaith

6.2 Hyfforddiant Cymraeg

6.2.1 Nod y Cyngor yw darparu cyrsiau addas ar bob lefel i gryfhau sgiliau ieithyddol y staff er mwyn gwireddu'r Cynllun. Mae'r Strategaeth Hyfforddiant Iaith yn rhan allweddol o gyfundrefn datblygiad personol y Cyngor.

Rhoddir anogaeth gref i bob swyddog o fewn y Cyngor ddysgu neu wella'i Gymraeg. Bydd y math o gwrs a gynigir yn fater i'r Cyngor ei drafod gyda'r swyddog dan sylw. Gall amrywio o gyrsiau ar gyfer dechreuwyr pur i gyrsiau gloywi ysgrifenedig i'r rheiny sy'n rhugl yn y Gymraeg ar lafar/ysgrifenedig.

6.2.2 Rhoddir blaenoriaeth i'r swyddogion hynny y mae'n ofynnol iddynt fod â hyfedredd yn y Gymraeg er mwyn cydymffurfio â'u disgrifiad swydd neu amod cyflogi, a hefyd i ddechreuwyr sydd yn dod i gysylltiad â'r cyhoedd.

6.2.3 Darperir cyrsiau addas ar gyfer staff ynghyd â chefnogaeth yn y gweithle.

6.2.4 Darperir hyfforddiant Cymraeg i ddysgwyr/a rhai sydd angen gloywi yn unol â Strategaeth Hyfforddiant Cymraeg y Cyngor a fydd, ymysg pethau eraill, yn:

- asesu anghenion dysgwyr a'r rheini sydd angen gloywi ac yn gosod targedau iddynt;
- monitro cyrhaeddiad dysgwyr a'r rheini sydd angen gloywi;
- galluogi staff i weithio yn eu dewis iaith ar lafar neu yn ysgrifenedig;
- cynyddu sgiliau llafar ac ysgrifenedig staff dwyieithiog.

6.2.5 Rheolwr y Gwasanaethau Adnoddau Dynol fydd yn gyfrifol am arolygu'r darpariaethau dysgu Cymraeg.

Deleted: Pennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol

6.2.6 Darperir hyfforddiant arbenigol hefyd mewn meysydd penodol sydd yn berthnasol i waith y Cyngor.

6.2.7 Sicrheir fod swyddogion sy'n dysgu Cymraeg yn mynychu nifer penodol o oriau hyfforddiant iaith mewn blwyddyn.

6.3 **Recriwtio**

Deleted: 6.2.8 Bydd pecyn Cysgair ar gael ar gyfer pob swyddog

6.3.1 Mewn achos lle bydd yr angen am sgiliau yn y Gymraeg a'r Saesneg yn hanfodol ar gyfer cyflawni swydd, bydd y swydd yn cael ei hysbysebu felly.

Oni ellir penodi person dwyieithog i swydd o'r fath yn dilyn hysbyseb o'r fath, bydd yswydd honno yn cael ei hail hysbysebu gyda'r un amod(au) ieithyddol.

Fodd bynnag, yn achos yr ail hysbyseb gogyfer rhai swyddi penodol, bydd croeso i bersonau heb sgiliau Cymraeg ymgeisio am y swyddi hyn. Gyda rhai swyddi eraill, bydd yn angenrheidiol cael swydd ddwyieithog o'r cychwyn cyntaf er mwyn diwallu gofynion y gwasanaeth. Os penodir ymgeisydd di-Gymraeg i'r swydd gofynnir iddo/iddi dderbyn, fel amod penodi, dargedau datblygu sgiliau iaith Gymraeg yn codi o'r fanyleb person i'r swydd a chytuno ar gyfnod amser penodol i gyrraedd lefel rhuglder derbyniol yng nghyswllt bodloni gofynion y swydd. Bydd y Cyngor yn rhoi pob cymorth o ran ariannu cyrsiau a neilltuo amser o'r gwaith, i alluogi swyddogion di-Gymraeg i ddysgu'r iaith. Bydd y Cyngor hefyd yn monitro cynnydd yn rheolaidd er mwyn asesu pa mor briodol yw'r cwrs i'r unigolyn.

Ar gyfer rhai swyddi penodol, bydd cymal yn cael ei gynnwys mewn ail hysbysebion o'r fath i ddynodi eu bod yn ail-hysbysebion ac yn dynodi fod croeso i bersonau heb sgiliau Cymraeg ymgeisio am y swydd. Yn ogystal, yn y pecyn gwybodaeth am y swydd a ddarperir i ymgeiswyr, rhoddir gwybodaeth am yr amod i ennill sgiliau ieithyddol fel a nodir uchod.

Bydd Grwp Tasg Iaith y Cyngor yn derbyn adroddiadau chwarterol ar benodiadau staff a bydd unrhyw risgiau'n cael eu trosglwyddo I sylw'r Pwyllgor Sgrïwtini Corfforaethol I'w craffu ymhellach.

Deleted: Bydd

Deleted: Pennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol yn gyfrifol am arolygu datblygiad ieithyddol swyddogion a benodir i swyddi o'r fath gan adrodd yn rheolaidd i'r

6.4 **Hyfforddiant**

6.4.1 Wrth drefnu hyfforddiant, bydd gofyn hysbysu swyddogion am gyrsiau priodol sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y Cyngor yn darparu hyfforddiant lle bynnag y bo hynny'n briodol i hwyluso gweithredu'r Cynllun. Bydd yn cyflawni hynny trwy asesu beth yw anghenion hyfforddiant staff y Cyngor.

Deleted: Trosolwg Polisi Datblygu, Gwasanaethau Sylfaenol ac Adnoddau ar y mater

Bydd anogaeth i swyddogion ddilyn cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg pan fo hynny'n berthnasol.

6.4.2 Yn achos cyrsiau a ddarperir yng Nghymru trwy gyfrwng y Saesneg, bydd y Prif Weithredwr yn gyfrifol am annog y cyrff arholi/asesu perthnasol i gynnig cyfle ieithyddol cyfartal i fyfyrwyr, fel y gallant sefyll arholiadau/gyflwyno gwaith i'w asesu, yn Gymraeg.

Deleted: Mae'r Cyngor yn ceisio cyfrannu tuag at unioni'r prinder o siaradwyr Cymraeg mewn rhai meysydd trwy ddarparu cynllun hyfforddeion sy'n rhoi'r cyfle i unigolion dwyieithog feithrin profiad gwaith ac ennill cymhwyster proffesiynol yn y meysydd hynny.¶

6.5 Trefniadau Gweinyddol

6.5.1 Bydd y Cyngor yn defnyddio ac yn cyfeirio at y Cynllun hwn wrth lunio a diwygio polisiau, cynlluniau a mesurau eraill ymhob adran, fel bod agweddau Cymraeg gwasanaeth y Cyngor yn cael eu hintegreiddio i bob maes o fewn ei brosesau gweinyddol arferol. Yn ogystal, cynhelir ymarferion codi ymwybyddiaeth o egwyddorion y Cynllun ymhlith staff.

6.5.2 Bydd Aelodau'r Cyngor, y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Corfforaethol a'r Penaethiaid Gwasanaeth yn gefnogol i holl fesurau'r Cynllun hwn.

Deleted: 6.5.2 Yn arbennig felly, bydd gofyn i reolwyr gwasanaethau sicrhau eu bod yn rhoi sylw i holl bolisiau'r Cynllun hwn wrth gynnal adolygiadau gwasanaeth.¶

Deleted: 3

Deleted: a

Deleted: h

Deleted: 4

Deleted: 5

6.5.3 Y Prif Weithredwr fydd yn gyfrifol am gylchredeg gwybodaeth, cyfarwyddiadau ac arweiniad am y Cynllun i bob adran, a bydd pob Cyfarwyddwr wedyn yn gyfrifol am ei gylchredeg o fewn ei (h)adran. Mae hi'n bwysig fod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o ofynion y Cynllun er mwyn iddo weithio'n effeithiol.

6.5.4 Bydd y Cyngor yn hyrwyddo'r defnydd o becynnau meddalwedd Cymraeg a dwyieithog yn gorfforaethol.

6.6 Y Gwasanaeth Cyfieithu

6.6.1 Bydd y Cyngor yn cyflogi tîm o gyfieithwyr cymwys er mwyn cyfieithu unrhyw ddeunydd a fydd yn cael ei gyhoeddi. Bydd y tîm cyfieithu'n defnyddio i'r eithaf dechnoleg newydd a fyddai'n cefnogi a chryfhau capasiti'r gwasanaeth.

Formatted: Indent: Left: 0 pt, Hanging: 36 pt

Deleted:

6.6.2 Pan fo sefydliad preifat, corff preifat, neu unigolyn yn cyflwyno unrhyw ddogfennau, adroddiadau neu lythyrau i'r Cyngor yn Saesneg yn unig, a'r angen yn codi i gyflwyno'r testun i Bwyllgor neu Banel, yna disgwylir i'r sefydliad preifat, corff preifat neu unigolyn i gyflwyno'r wybodaeth yn ddwyieithog.

Deleted: anogir y

Deleted: Os ydy'r testun uchod yn y Gymraeg bydd y Cyngor yn ei gyfieithu i'r Saesneg a'i gyflwyno yn ddwyieithog i'r Pwyllgor neu'r Panel.

Disgwylir i gyrff cyhoeddus gyflwyno pob gohebiaeth ac adroddiad yn ddwyieithog ac anogir cyrff yn y sectorau gwirfoddol a phreifat i gyflwyno gohebiaeth yn ddwyieithog hefyd, yn unol â'r egwyddor o drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

6.6.3 Bydd gan bawb yr hawl i siarad Cymraeg neu Saesneg yn ôl eu dymuniad yng nghyfarfodydd y Cyngor a darperir offer cyfieithu ar y pryd i gyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg yn holl gyfarfodydd y Cyngor pan fo'i angen.

O safbwynt cyfieithu ar y pryd, gwneir y darpariaethau canlynol :

Offer Cyfieithu Mewnol

Formatted: Indent: First line: 36 pt

Mae offer cyfieithu parhaol wedi cael ei osod yn Siambr y Cyngor ac yn Ystafell Bwyllgor 1. Gellir gosod offer symudol fel bo'r angen yn Ystafell Bwyllgor 2.

Dan amgylchiadau lle bydd yr offer yn torri yn ystod cyfarfod, bydd y cyfieithydd/cyfieithwyr yn cyfieithu'n bersonol i'r sawl sydd angen cyfieithiad. Onid yw hyn yn ymarferol, gofynnir i'r rheiny sydd yn bresennol yn y cyfarfod ac sy'n ddiabynnol ar wasanaeth cyfieithu, symud at berson addas a fydd yn crynhoi'r drafodaeth ar adegau cyfleus, a hynny dan reolaeth y Cadeirydd. Yn ogystal, ar ddiwedd pob trafodaeth bydd y Cadeirydd yn trefnu i grynhoi'r drafodaeth a'r penderfyniad yn Saesneg.

Offer Cyfieithu Symudol

Formatted: Indent: First line:
36 pt

Os nad oes offer cyfieithu parhaol mewn ystafell a ddefnyddir i gynnal cyfarfodydd y Cyngor a Phwyllgorau, Is-Bwyllgorau neu Banelau'r Cyngor yna, darperir offer symudol ynddi yn ôl y galw.

Pan fo cyfarfod yn cael ei gynnal mewn adeilad sy'n eiddo i gorff arall, a'r Cyngor yn rhan o'r gwaith trefnu, yna defnyddir yr offer symudol yn ôl y galw.

Bydd yr Uned Gyfieithu yn cynorthwyo yn y broses o fonitro defnydd ysgrifenedig o'r Gymraeg yng ngweinyddiaeth y Cyngor fel rhan o'r broses o gyfieithu testunau. Bydd hyn yn rhan o ymarfer o ymestyn effeithlonrwydd adrannau i allu darparu gwasanaeth Cymraeg a Saesneg cyflawn heb orfod bod yn or-ddiabynnol ar yr Uned Gyfieithu.

7.0 Arolygu'r Cynllun

7.1 Cyffredinol

Bydd y Prif Weithredwr yn gyfrifol am sicrhau bod Cynllun Iaith y Cyngor yn cael ei weithredu'n llawn gan bob Cyfarwyddwr dan ei reolaeth ac fe fydd yn darparu adroddiadau cynnydd mewnol i'r Pwyllgor Gwaith.

Bydd gweithrediad y Cynllun yn cael ei arolygu a'i fonitro'n rheolaidd ac ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol bydd y Prif Weithredwr, yn dilyn cymeradwyaeth pwyllgor gweithredol y Cyngor, yn cyhoeddi Adroddiad Monitro Blynyddol cyn gynted â phosibl ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol flaenorol. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno i Fwrdd yr Iaith Gymraeg cyn pen tri mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol berthnasol. Bydd copi o'r adroddiad monitro blynyddol yn cael ei gylchredeg yn eang i'r cyfryngau a'r wasg yng Nghymru.

Deleted: P

Deleted: Gwaith

Bydd yr Adroddiad Monitro Blynyddol i Fwrdd yr Iaith yn cyflawni'r amcanion canlynol:

- mesur a yw'r Cyngor yn cydymffurfio â'r Cynllun
 - perfformiad yn erbyn yr amserlen osodedig.
- mesur ansawdd ei wasanaeth rheng flaen yn Gymraeg
 - data;
 - barn y cyhoedd;

- samplu;
- adroddiad ffocws ar wasanaeth y Cyngor trwy drydydd parti;
- mesur a yw ei reolaeth/gweinyddiad o'r Cynllun yn ddigonol
 - gwerthusiad gan y Bwrdd;
- mesur digonolrwydd ei sgiliau ieithyddol drwy gymharu angen ag adnodd;
 - data sgiliau ieithyddol - personel.
- dadansoddi ei berfformiad fesul blaenoriaeth;
 - rôl sgrwtini- ydi'r Cyngor yn cyflawni yr hyn y mae'n ceisio ei gyflawni?
- darparu pennod ar brif ffrydio;
 - enghreifftiau profedig ohono'n digwydd.
- Strategaeth laith Llywodraeth Cymru
 - enghreifftiau o hyrwyddo defnydd yn y gymuned.
- camau corfforaethol neu fesul gwasanaeth a gymeradwywyd i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg.

Deleted: Pawb

Ar sail y pwyntiau uchod, bydd y Cyngor yn crynhoi canfyddiadau i sylwebaeth fer (gyda thystiolaeth) i Fwrdd yr Iaith ac yn adnabod unrhyw wendidau/risg sylfaenol, gan amlinellu cynllun gweithredol i'w cywiro gydag amserlen ynddo. Yn ogystal, bydd sylw yn cael ei roi i gynnydd, arfer dda a lefel cydymffurfiaeth.

Pan fo gwendidau yn cael eu hadnabod, cytunir ar gynllun gweithredu gyda Bwrdd yr Iaith.

7.2 Methodoleg Monitro

Ni fydd y broses o fonitro gweithrediad y Cynllun Iaith yn unffurf a defnyddir amryw o dulliau gwahanol wrth ymdrin â gwahanol elfennau. Yn sgil profiad, adolygir dulliau gan ddefnyddio'r fethodoleg fwyaf effeithiol. Yn ogystal â'r fethodoleg, bydd y Prif Weithredwr hefyd yn manteisio ar y canlynol fel modd parhaus o arolygu'r Cynllun :

- Pwyllgor gweithredol y Cyngor (sydd â chyfrifoldeb am weithredu'r Cynllun Iaith ac ystyried Adroddiadau Monitro Blynyddol);
- Yr Aelod o'r Pwyllgor gweithredol sy'n gyfrifol am y Cynllun Iaith;
- Grwp Tasg Iaith (grwp corfforaethol o swyddogion ac Aelodau Etholedig);
- Cyd-drefniadau Cymunedol;
- Gwerthuso'r elfennau Gofal Cwsmer;
- Ymgynghoriadau cyhoeddus ar Reoli Perfformiad;
- Y broses gwynion.

Deleted: Gwaith

Deleted: Gwaith

Deleted: dd yn dal portffolio'r

7.3 Amcanion Blynyddol

Bydd pob Adroddiad Monitro yn cynnwys rhestr o flaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn a chânt eu llunio yn sgil :

- canlyniadau'r cyfnod monitro blaenorol;
- argymhellion Bwrdd yr Iaith ar yr Adroddiad Monitro Blynyddol;
- penderfyniadau'r pwyllgor gweithredol/deilydd portffolio;
- penderfyniadau rheolaethol/polisi.

Deleted: <#>cynnydd ar Gynllun Gweithredu argymhellion yr Arolwg Annibynnol;¶

Deleted: P

Deleted: Gwaith

Bydd rhai o'r amcanion hyn yn rhai corfforaethol eu natur ac eraill yn rhai adrannol eu natur a bydd cyfrifoldeb gan y Prif Weithredwr hefyd i sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni yn y modd priodol.

7.4 Adroddiadau Adrannol

Y prif ddull ar gyfer monitro gweithrediad y Cynllun laith fydd trwy gyfrwng yr holiadur blynyddol I Benaethiaid Gwasanaeth. Trwy gyfrwng y dull hwn, bydd pob Cyfarwyddwr yn meithrin perchenogaeth o'r Cynllun ac yn gyfrifol am ei weithrediad.

Deleted: Adroddiadau Monitro Pena

7.5 Cynnal y Cynllun

Bydd y Prif Weithredwr yn monitro cydymffurfiaeth â'r Cynllun ac yn ymchwilio a monitro'n ffurfiol os gwelir bod diffyg cydymffurfiaeth neu berfformiad gwael am unrhyw reswm.

Un elfen gysylltiol yma yw 'Ffonio' a bydd y Cyfarwyddwyr Corfforaethol yn monitro'r agwedd hon yn ffurfiol gan nad yw wedi bod mor effeithiol ag y dylai yn ystod cyfnod dechreuol y Cynllun.

7.6 Agweddau Personel a Hyfforddiant

Bydd nifer o agweddau yn cael eu monitro'n ffurfiol, mewn perthynas â'r gwasanaeth mewnol i staff, gan y Gwasanaeth Adnoddau Dynol. Bydd y rhain yn cynnwys y canlynol:

Hyfforddiant

- Faint o staff y Cyngor a ddilynodd gyrsiau dysgu a gloywi Cymraeg (dylid manylu ar y nifer, y math o gwrs a hyd y cwrs).
- Manylion am berfformiad yn erbyn y targedau a osodwyd i ddysgwyr a rhai sydd angen gloywi eu Cymraeg.
- Pa gyrsiau a drefnwyd trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Defnydd ymarferol o'r Gymraeg gan ddysgwyr/y rhai sydd wedi bod yn gloywi wrth ddarparu gwasanaeth cyhoeddus.

Anwytho Staff

- Pa gamau sydd yn cael eu cymryd i ddod ag anghenion a goblygiadau'r Cynllun i sylw staff newydd?

Deleted: ¶

Staffio

- Pa gamau sydd wedi cael eu cymryd gan Reolwr y Gwasanaethau Adnoddau Dynol i sefydlu ac arolygu nifer a lleoliad y staff sydd yn ddwyieithog?.

Formatted: Indent: First line: 36 pt

Deleted: Bennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol

7.7 Cyfieithu

Bydd yr Uned Gyfieithu yn gyfrifol am gynorthwyo gyda'r gwaith o fonitro defnydd y Gymraeg yng ngweinyddiaeth fewnol y Cyngor. Gwneir hyn trwy gofnodi i ba iaith y cyfieithwyd testunau, a hynny yn achos testunau cyffredinol a thestunau i bwyllgor. Gwneir hyn ar sail monitro perfformiad adrannol.

7.8 Rheoli Perfformiad

I gefnogi'r broses fonitro, bydd y gyfundrefn Rheoli Perfformiad hefyd yn cynnig gwybodaeth i'r Prif Weithredwr am weithrediad y Cynllun Iaith yn gorfforaethol. Bydd cyfrifoldeb ar y **Penaethiaid Gwasanaeth** a'r Prif Weithredwr i sicrhau y bydd y Cynllun Iaith yn cael ei ymgorffori mewn adolygiadau gwasanaeth **ac asesiadau effaith cydraddoldeb** a sicrhau bod pob un o wasanaethau'r Cyngor yn cael ei ddarparu yn unol â'r Cynllun.

Yn gyffredinol, ni fydd y gwaith monitro hwn yn cael ei gynnwys yn yr Adroddiad Monitro blynyddol; yn hytrach, bydd camau cywiro unrhyw ddiffygion a ganfyddir mewn **asesiadau** yn cael eu cynnwys mewn Cynllun Gweithredu ar gyfer y Gwasanaeth dan sylw. Fodd bynnag, bydd y Prif Weithredwr yn cyfeirio at gasgliadau adolygiadau gwasanaeth sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn ei Adroddiad Monitro Blynyddol.

Deleted:

Formatted: Indent: Left: 36 pt

Deleted:

Deleted: Cyfarwyddwyr

Deleted:

Deleted:

Deleted: Adolygiadau

7.9 Gweithdrefn Gwyno a Chanmoliaeth y Cyngor

Mae gan y Cyngor Sir Weithdrefn Gwyno a Chanmoliaeth Gorfforaethol a weinyddir gan y Swyddog Gofal Cwsmer ers 1 Mehefin, 2009 ac fe ymgorfforir cwynion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg i'r drefn hon (rhaid i bob cofnod nodi os yw'r gwyn yn ymwneud yn benodol â'r maes iaith).

Bydd y Prif Weithredwr yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw gwynion a dderbynnir gan y Cyngor ynglyn â mater ieithyddol trwy gyfrwng y weithdrefn uchod yn cael ei gofnodi yn Adroddiad Monitro Blynyddol y Cyngor.

Yn unol â'r Drefn Gwyno, rhaid :

- cydnabod derbyn pob cwyn (ynglyn â gwasanaeth dwyieithog) yn ysgrifenedig o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y gwyn;
- darparu ymateb llawn, i'r graddau y bo'n bosib, cyn pen 15 diwrnod gwaith. Os nad yw ymateb llawn wedi ei ddarparu o fewn 30 gwaith, bydd y mater yn cael ei gyfeirio at y Prif Weithredwr.

Cydnabyddir fod delio'n brydlon a phwrpasol â chwynion yn rhan o ofal cwmser a gwasanaeth dwyieithog i'r cyhoedd.

7.10 Cyhoeddusrwydd

Bydd y Prif Weithredwr yn trefnu cyhoeddusrwydd i'r Cynllun Iaith a'i weithrediad yn barhaus. Bydd y Cyngor yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r Cynllun

laith diwygiedig hwn ymhlith y cyhoedd, staff y Cyngor a chontractwyr a ddefnyddir gan y Cyngor.

Bydd y Cyngor yn falch iawn o dderbyn sylwadau ac awgrymiadau gan ei gwsmeriaid ar sut i wella'r gwasanaeth dwyieithog a roddir iddynt. Yn achlysurol, bydd y Prif Weithredwr yn ymgynghori â'r cyhoedd/carfannau perthnasol i ganfod eu barn am y gwasanaeth dwyieithog, a hynny fel y caniatâ adnoddau.

7.11 Ymchwiliad Adran 17

Deleted: ¶

Pe byddai gofyn i'r Bwrdd gynnal Ymchwiliad llawn o dan Adran 17 y Ddeddf, bydd y Cyngor yn barod i gydweithredu'n llawn drwy ddarparu gwybodaeth - adroddiadau, dogfennau neu eglurhad i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

Bydd y Cyngor yn barod i wneud hynny yn ysgrifenedig neu mewn person a bydd modd i'r Bwrdd drafod gydag:

- Aelod Etholedig;
- swyddog cyflogedig yr Awdurdod Lleol;
- darparwr gwasanaeth trwy gytundeb a'l weithwyr;
- unrhyw unigolyn all fod yn cynorthwyo'r Cyngor gyda gweithrediad ei wasanaethau.

7.12 Gwella'r Gwasanaeth

Bydd y Cyngor yn falch iawn o dderbyn sylwadau ac awgrymiadau gan ei gwsmeriaid ar sut i wella'r gwasanaeth dwyieithog a roddir iddynt.

Dylid cyfeirio unrhyw sylwadau at y Prif Weithredwr a bydd yntau yn ystyried yr hyn a dderbynnir cyn cyflwyno adroddiad i'r [pwylgor gweithredol](#) ar unrhyw fater a fydd, yn ei farn ef, angen ei ystyried gyda golwg ar newid neu ddiwygio'r Cynllun.

Deleted: Pwyllgor Gwaith

Yn Chwefror, 2003, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Iaith Pawb sef dogfen bolisi strategol a 'chynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwieithog'. Y cynllun hwn yw'r fframwaith gweithredu cenedlaethol cyntaf erioed i gael ei gynllunio ar lefel y llywodraeth i warchod, cynnal a hyrwyddo'r Gymraeg drwy Gymru gyfan.

Mae'r Cyngor yn parhau'r egwyddor o gydraddoldeb yn Neddf yr Iaith Gymraeg 1993 a thrwy hynny yn:

cynnig i'r cyhoedd yr hawl i ddewis pa iaith i'w defnyddio wrth ddelio â'r Cyngor.

cydnabod y gall aelodau'r cyhoedd fynegi eu barn a'u hanghenion yn well yn eu dewis iaith.

cydnabod bod galluogi'r cyhoedd i ddefnyddio eu dewis iaith yn fater o arfer da, nid goddefiad.

cydnabod y gall gwadu'r hawl i ddefnyddio eu dewis iaith roi aelodau o'r cyhoedd mewn sefyllfa anfanteisiol.

1.6 Y Safon Gydraddoldeb Ar Gyfer Llywodraeth Leol Cymru

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor Sir weithredu'r Safon Gydraddoldeb newydd i Lywodraeth Leol Cymru ac a ysgrifennwyd gyda nawdd Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r Safon hon yn darparu dull cyffredin ar gyfer delio gyda chydaddoldeb o safbwynt hil, iaith, rhyw ac anabledd. Serch hynny, mae'n bwysig cofio nad yw'n wastad yn bosibl trin hil, iaith, rhyw ac anabledd fel un pwnc gan fod gwahaniaethau a rhwystrau unigol i'r gwahanol elfennau. Yn ogystal â gweithredu'r Cynllun Iaith, bydd yn sialens i'r Cyngor Sir i'r dyfodol briflifo arfer dda yn y maes dwyieithrwydd fel rhan o agenda ehangach y Safon Gydraddoldeb.

gan Fwrdd yr Iaith ac fe gyhoeddwyd yr ail argraffiad yn Awst, 1998.

Mae'r Cyngor yn cael ei arwain gan Arweinydd a Phwyllgor Gwaith gydag Aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn gyfrifol am oruchwylio 'portffolio' o gyfrifoldebau am feysydd penodol. Gelwir yr Aelodau hyn yn 'Ddeilyddion Portffolio' ac er mwyn adlewyrchu ei ymrwymiad i ddwyieithrwydd a'r Cynllun Iaith, mae'r Cyngor Sir wedi adnabod Deilydd Portffolio i fod yn gyfrifol am y maes.

Bydd holl wasanaethau'r Cyngor o dan reolaeth y Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr yr Adrannau unigol a rhoddir crynodeb o'r gwasanaethau hynny sydd yn berthnasol i'r cyhoedd isod.

Bydd y Prif Weithredwr hefyd yn gyfrifol am oruchwylio'r gwasanaeth dwyieithog a dderbynnir gan sefydliadau cyhoeddus eraill yng Nghymru y bydd y Cyngor yn ymwneud â nhw, gyda'r nod o annog, hwyluso a chefnogi'r sefydliadau hyn i ddarparu gwasanaeth dwyieithog cyflawn i'r cyhoedd.

Swyddfa'r Prif Weithredwr

Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus
Gwasanaethau Cyfreithiol a Phwyllgorau
Cwynion, Gwasanaethau Cefnogol, Etholiadau, Monitro Priodoldeb,
Pridiannau Tir
Datblygu Economaidd

Adran Addysg a Hamdden

Addysg Feithrin, Cynradd, Arbennig, Uwchradd a Gydol Oes
Unedau Cyn-Ysgol, Unedau Anghenion Arbennig, Uned Gyfeirio
Disgyblion a Chanolfan Iaith
Gwasanaeth Ieuencid
Canolfannau Hamdden
Llyfrgelloedd
Swyddfa Archifau
Oriol Ynys Môn, Amgueddfeydd Cofrestredig a Chanolfannau Treftadaeth

Adran Gyllid

Refeniw
Budd-daliadau Tai a Threth
Cyfrifo/Cyllidebau
Cyflogau
Taliadau
Rheolaeth Trysorlys
Rheoli Risg ac Yswiriant

Adran yr Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol

Rheoli Cynllunio
Polisi Cynllunio
Rheolaeth Cefn Gwlad
Amgylchedd Adeiladu a Thirlunio
Rheoli Adeiladu

Swyddogaethau Iechyd yr Amgylchedd
Safonau Masnach
Iechyd a Lles Anifeiliaid
Rheoli Gwastraff/Casglu Gwastraff a Glanhau
Rheoliadau Trwyddedu mewn Materion Gwarchod y Cyhoedd
Cynnal Priffyrdd, Goleuadau ffyrdd, Pontydd a Waliau
Rheoli Traffig a Meysydd Parcio
Diogelwch y Ffyrdd a Thrafnidiaeth Gyhoeddus
Cynnal a Thrwsio Adeiladau
Gwasanaeth Eiddo a Rheoli Mân-ddaliadau
Gwaith dylunio Peirianeg Sifil, Adeiladwaith a Phensaerniaeth
Iechyd a Diogelwch
Cofrestru Genedigaethau, Marwolaethau a Phriodasau

Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol

Gwasanaethau Cymdeithasol:

Gwasanaethau Gofal Plant, Iechyd Meddwl, Anabledd Dysgu, Byw'n
Annibynnol, Gwasanaethau i Ofalwyr a Phobl Hyn

Gwasanaeth Derbyn a Gofal Cwsmer

Cynnal a Rheoli:-

Gwasanaeth Gofal Cartref

Cartrefi i Bobl Hŷn

Canolfannau Dydd i Bobl Hŷn

Gwasanaethau Dydd (Anabledd Dysgu)

Gweithdy i Bobl ag Anabledd Corfforol

Gwasanaeth Ymateb allan o oriau

Tim Troseddau'r Ifanc

Gwasanaethau Tai:

Rheoli Cyfrif Refeniw Tai y Cyngor

Rheoli Stadau

Casglu Rhenti/ôl-ddyledion

Rheolaeth gyllidol/rheoli dyledion

Cyd-gysylltu Gofal yn y Gymuned

Cyfranogiad Tenantiaid

Cynllun Pryniant Tai Cost Isel

Gwasanaeth Wardeiniaid

Dyletswyddau Stadudol eraill e.e. gofal am y digartref

Canolfan J E O'Toole

Diogelwch Cymunedol.

AMSERLEN A CHYNLLUN GWEITHREDU'R CYNLLUN IAITH (2011-2014)

CYNLLUNIO GWASANAETH DWYIEITHOG

AMCAN	GWEITHRED	AMSERLEN TARGED	CYFRIFOLDEB
<p>Polisiau a Mentrau Newydd</p> <p>Byddwn yn parhau i brif ffrydio'r Gymraeg i bolisiau, strategaethau a phenderfyniadau allweddol trwy gryfhau ein trefniadau.</p>	<p>Cynnal asesiadau effaith ar bolisiau, strategaethau a phenderfyniadau allweddol y Cyngor Sir.</p>	<p>Hyfforddiant ar gael i staff allweddol yn ystod Tachwedd, 2011.</p> <p>Templed a threfn corfforaethol mewn lle erbyn 1/4/12.</p>	<p>Penaethiaid Gwasanaeth gyda'r Uned Bolisi yn cynnig arweniad.</p>
<p>Gweinyddiaeth Fewnol</p> <p>Byddwn yn parhau i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol y Cyngor.</p>	<p>Cynnal y prosiect 'Newid Agweddau – Cynyddu'r Defnydd o'r Gymraeg o fewn y Weinyddiaeth' dan Gynllun Gweithleoedd Dwyieithog Bwrdd yr Iaith trwy gynnal sesiynau ymwybyddiaeth iaith a darparu pecynnau i uwch swyddogion a rheolwyr, comisywnwyr ac aelodau'r Pwyllgor Gwaith.</p>	<p>31/12/11</p>	<p>Ymgynghorydd allanol dan nawdd Bwrdd yr Iaith Gymraeg.</p>
<p>Byddwn yn annog gwasanaethau i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn fewnol</p>	<p>Cynnal cynllun Pencampwyr Iaith o fewn y gwasanaethau</p> <p>Penaethiaid Gwasanaeth i lunio Cynlluniau Gweithredu Gwasanaeth</p> <p>Monitro cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg trwy ddata'r Uned Gyfieithu.</p>	<p>Parhaus</p> <p>1/4/12</p> <p>Parhaus</p>	<p>Penaethiaid Gwasanaeth/Uned Bolisi</p> <p>Penaethiaid Gwasanaeth/Uned Bolisi</p> <p>Uned Bolisi/Adain Gyfieithu</p>

AMSERLEN A CHYNLLUN GWEITHREDU'R CYNLLUN IAITH (2011-2014)

CYFLWYNO GWASANAETH DWYIEITHOG

AMCAN	GWEITHRED	AMSERLEN TARGED	CYFRIFOLDEB
<p>Gwasanaethau ar Gontract</p> <p>Byddwn yn sicrhau ein bod yn cyfleu ac yn monitro gofynion y Cynllun Iaith i gyrrff trydydd parti sy'n darparu gwasanaeth trwy gontract ar ran y Cyngor.</p>	<p>Cynnal archwiliad o sampl o gontractau i sicrhau cydymffurfiaeth ieithyddol.</p> <p>Diweddarau'r Canllawiau i Staff ar osod gwasanaethau trwy gontract i gyd-fynd ag egwyddorion 'Canllaw Caffael' Bwrdd yr Iaith</p>	<p>Llunio rhaglen dreigl o gontractau i'w harchwilio erbyn 1/4/12</p> <p>30/6/12</p>	<p>Uned Bolisi i arwain mewn ymgynghoriad â Phenaethiaid Gwasanaeth.</p> <p>Uned Bolisi</p>
<p>Gwasanaeth leuenctid</p> <p>Byddwn yn sicrhau fod y Gwasanaeth leuenctid yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg</p>	<p>Adrodd i Fwrdd yr Iaith yn yr Adroddiad Monitro ar sut y gwnaeth y Gwasanaeth hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a chynyddu'r cyfleon i ddefnyddio'r iaith.</p> <p>Darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i arweinyddion y Clybiau leuenctid.</p> <p>Adnabod pencampwr iaith ar gyfer y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc</p>	<p>Yn flynyddol</p> <p>3/9/11</p> <p>31/12/11</p>	<p>Rheolwr y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc/Rheolwr y Gwasanaeth leuenctid</p> <p>Menter Iaith Môn mewn ymgynghoriad â'r Cyngor.</p> <p>Rheolwr y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc</p>

AMSERLEN A CHYNLLUN GWEITHREDU'R CYNLLUN IAITH (2011-2014)

DELIO A'R CYHOEDD SY'N SIARAD CYMRAEG

AMCAN	GWEITHRED	AMSERLEN TARGED	CYFRIFOLDEB
Gwasanaethau Trwy Gyfrwng y Gymraeg Byddwn yn ail godi ymwybyddiaeth staff	Ailgyhoeddi canllawiau i staff sy'n cynnig arweiniad ar ddarparu gwasanaeth yn newis iaith y defnyddiwr.	Wrth gyhoeddi'r Cynllun Iaith diwygiedig.	Uned Bolisi.
Byddwn yn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd	Darparu Canllaw Cyfarfodydd Dwyieithog Darparu hyfforddiant ar egwyddorion y Canllaw ar gyfer Cadeiryddion	1/4/12 1/9/12	Uned Bolisi Adain Hyfforddi
Byddwn yn monitro ansawdd deunydd ysgrifedig a gynhyrchir.	Darparu gwasanaeth golygu gwaith trwy'r Adain Gyfieithu	Parhaus	Adain Gyfieithu
Byddwn yn monitro ansawdd y gwasanaeth a gynigir trwy gyfrwng y Gymraeg	Comisynu hapwiriad o ansawdd gwasanaethau Derbyn adroddiadau gwasanaeth ar y defnydd o'r Gymraeg	Yn ystod 2013 os yw arian yn caniatáu (cynhaliwyd y diwethaf yn 2010) Blynyddol	Comisynu ymgynghorydd allanol i ymgymryd â'r gwaith. Penaethiaid Gwasanaeth/Uned Bolisi

AMSERLEN A CHYNLLUN GWEITHREDU'R CYNLLUN IAITH (2011-2014)

WYNEB CYHOEDDUS Y CYNGOR

AMCAN	GWEITHRED	AMSERLEN TARGED	CYFRIFOLDEB
Byddwn yn hyrwyddo'r Gymaeg trwy dechnoleg gwybodaeth.	Ffurflenni cais am swyddi ar gael ar y lein	Gorffennaf/Awst, 2012	Adain Adnoddau Dynol/Rheolwr y Wefan
	System democratiaeth newydd ar gael ar y wefan gyda gwybodaeth am Aelodau Etholedig, cofnodion, ymgynghoriadau dwyieithog ac e-petitiwn.	Gorffennaf/Awst, 2012	Adain Technoleg Gwybodaeth
	Portal mynediad newydd i denantiaid tai i'w galluogi i wneud apwyntiad gyda'r Cyngor a chofnodi ceisiadau cynnal a chadw (a dilyn cynnydd) ar y lein.	Ebrill, 2013	Adain Technoleg Gwybodaeth
	Sicrhau fod polisi 'Twitter' mewn lle.	Rhagfyr, 2012	Adain Technoleg Gwybodaeth
	Sefydlu Fforwm Twristiaeth	Ebrill, 2012	Adain Technoleg Gwybodaeth
Byddwn yn parhau i sicrhau fod holl arwyddion y Cyngor yn gwbl ddwyieithog	Byddwn yn parhau i weithredu'r drefn bresennol	Anelu at 100% cydymffurfiaeth	Gwasanaeth Priffyrdd
	Cyhoeddi rhestr enwau lleoedd ar wefan y Cyngor	Ebrill, 2012	Uned Bolisi/Gwasanaeth Priffyrdd

AMSERLEN A CHYNLLUN GWEITHREDU'R CYNLLUN IAITH (2011-2014)

GWEITHREDU AC AROLYGU'R CYNLLUN

AMCAN	GWEITHRED	AMSERLEN TARGED	CYFRIFOLDEB
Byddwn yn gweithredu Strategaeth Sgiliau iaith y Cyngor	Cryfhau ein trefniadau monitro sgiliau ieithyddol staff fesul adran, gradd a gweithle gyda chefnodaeth meddalwedd Northgate trwy:	Yn flynyddol	Penaethiaid Gwasanaeth
	Ddiweddarau'r Awdit Sgiliau drwy'r broses werthuso	Rhagfyr, 2011 ac yna'n flynyddol.	Penaethiaid Gwasanaeth
	Gynnal Awdit Swyddi	Cychwyn y broses Rhagfyr, 2011 a chwblhau erbyn diwedd Mawrth, 2012	Penaethiaid Gwasanaeth
	Gymharu anghenion sgiliau gyda'r sgiliau sydd ar gael	Ebrill-Mai, 2012	Penaethiaid Gwasanaeth
	Cryfhau sgiliau trwy adnabod anghenion hyfforddiant a monitro cynnydd staff yn erbyn targedau	Mehefin-Awst, 2012 (cwblhau'r gwaith)	Penaethiaid Gwasanaeth
	Byddwn yn darparu hyfforddiant iaith Gymraeg i staff	Darperir gwersi yn flynyddol trwy'r Adain Adnoddau Dynol	Adroddir ar y nifer sy'n mynychu hyfforddiant yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg
Byddwn yn darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith	Darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith fel rhan o'r pecyn anwytho i staff newydd	Cynhelir y sesiynau unwaith y mis (yn ddibynol ar niferoedd)	Adain Adnoddau Dynol

AMSERLEN A CHYNLLUN GWEITHREDU'R CYNLLUN IAITH (2011-2014)

AMCAN	GWEITHRED	AMSERLEN TARGED	CYFRIFOLDEB
	<p>Darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i staff y Canolfannau Hamdden fel rhan o'r Cynllun Gweithleoedd Dwyieithog a noddir gan Fwrdd yr Iaith.</p> <p>Darparu modiwl ar y Gymraeg i staff ar y mewnwyd fel rhan o'r pecyn e ddysgu ar Gydraddoldeb</p>	<p>Tachwedd-Rhagfyr, 2012</p> <p>Ebrill, 2012</p>	<p>Ar y cyd gyda 3 Cyngor Sir arall.</p> <p>Adain Adnoddau Dynol.</p>
Byddwn yn sicrhau fod cwynion yn cael eu hymdrin â hwy yn unol â safonau corfforaethol y Cyngor Sir	Ymgorffori'r iaith Gymraeg i'r model corfforaethol 'Pryderon a Chwynion' fel bod modd datrys achosion cyn iddynt fynd yn rhy ddyrus.	Model yn cael eu gyflwyno ar ôl etholiad lleol 2012	Swyddog Cwynion Corfforaethol
Byddwn yn sicrhau ein bod yn monitro cydymffurfiaeth â gofynion y Cynllun Iaith	Cylch Gorchwyl y Grwp Tasg Iaith wedi 'i adolygu i fonitro cynnydd ac adnabod risgiau.	<p>Cyfarfodydd chwarterol. Derbyn ystadegau ar benodiadau i swyddi yn chwarterol.</p> <p>Adrodd ar unrhyw risgiau neu fylchau mewn perfformiad i sylw'r Pwyllgor Trosolwg Corfforaethol i'w craffu'n ymhellach fel bo'r angen.</p>	Uneb Bolisi yn cyd-lynu.

Cynllun yr Iaith Gymraeg – Crynodeb o'r diwygiadau drafft

Mae yna fân newidiadau wedi'u gwneud trwy'r ddogfen er mwyn diweddarau neu symleiddio'r geiriad a'r drefn, er engraifft:

- Pob cyfeiriad at 'Cyfarwyddwr perthnasol' ac 'Adran' wedi newid i 'Pennaeth Gwasanaeth perthnasol' a 'Gwasanaeth'.
- Cyfeiriadau at y 'Pwyllgor Gwaith' wedi newid i 'pwyllgor gweithredol'

Mae'r holl newidiadau wedi'u marcio yn y ddogfen ('track changes'). Ceir crynodeb o'r prif newidiadau isod:

Teitlau gwreiddiol	Newidiadau
1.0 Rhagarweiniad	
Arolwg Annibynnol Iaith Pawb	Gwybodaeth wedi dyddio – wedi'i dileu. Wedi ei ddiweddarau i adlewyrchu'r sefyllfa gyfredol. Teitl Newydd – Strategaeth Iaith Llywodraeth Cymru. Cefnogi'r amcanion.
Cydraddoldeb (cyfeiriad at Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993)	Teitl newydd - Mesur Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 Cymal yma'n ymrwymo i weithredu'n gadarnhaol i ymgymryd â swyddogaethau dan y Mesur newydd. Cyfeiriad hefyd at yr ymrwymiad i gydraddoldeb yn gyffredinol.
Y Cynllun	Cyfeiriad at y ffaith bod y Cyngor wedi mabwysiadu casgliad o ddangosyddion perfformiad a osodir gan Fwrdd yr Iaith.
2.0 Cynllunio Gwasanaeth Dwyieithog	
Polisiau a Mentrau Newydd	Cyfeiriad at yr angen i gwblhau asesiadau effaith.
Papur newydd "Medra"	Newid – cyhoeddi'n gwbl ddwyieithog yn hytrach na chyhoeddi yn iaith wreiddiol yr ethylglau gyda thalfyriad yn yr iaith arall.
3.0 Cyflwyno Gwasanaeth Dwyieithog	
Rhestru gwasanaethau'r Cyngor	Yr adran hon wedi'i hepgor – gwybodaeth ar gael eisoes ar ein gwefan ayyb

Cynllun yr Iaith Gymraeg – Crynodeb o'r diwygiadau drafft

Teitlau gwreiddiol	Newidiadau
Gwasanaethau ar ran y Cyngor gan bartion eraill	Ychwanegiad – sicrhau gwasanaeth dwyieithog trwy gynnwys amodau penodol mewn cytundeb gyda'r trydydd parti.
	Cyd-ddarparu Gwasanaethau – rhan newydd.
4.0 Delio â'r Cyhoedd sy'n siarad Cymraeg	
Ymdrin â'r Cyhoedd mewn Ffyrdd Eraill	Wedi ymestyn i gynnwys ystyriaeth i'r defnydd o rwydweithiau cymdeithasol a gwasanaethau ar-lein.
5.0 Wyneb Cyhoeddus y Cyngor	
Cyhoeddi ac Argraffu Deunydd ayyb	<p>Mater cydraddoldeb - ychwanegiad er mwyn sicrhau hygyrchedd dogfennau electronig – nid yw meddalwedd darllen sgrin yn gallu darllen testun mewn modd rhesymegol pan mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn ymddangos yn gyfochrog ar yr un dudalen.</p> <p>Mewn achosion fel hyn, dylid sicrhau bod fersiwn hygyrch yn cael ei chyhoeddi hefyd.</p>